



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

**2003 Rhif 142 (Cy.14)**

**2003 No. 142 (W.14)**

**CEFN GWLAD, CYMRU**

**COUNTRYSIDE, WALES**

**Rheoliadau Mynediad i Gefn  
Gwlad (Gwahardd neu Gyfyngu  
Mynediad) (Cymru) 2003**

**The Countryside Access (Exclusion  
or Restriction of Access) (Wales)  
Regulations 2003**

**NODYN ESBONIADOL**

**EXPLANATORY NOTE**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

*(This note is not part of the Regulations)*

O dan Bennod II o Ran I o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (adrannau 21 i 33 o'r Ddeddf), caniateir i'r hawl mynediad a roddwyd gan adran 2(1) o'r Ddeddf i unrhyw dir ("tir mynediad") gael ei gwahardd neu ei chyfyngu. O dan adrannau 23 a 32 o'r Ddeddf, mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad Cenedlaethol") bŵer i wneud rheoliadau i ddarparu ar gyfer y camau sydd i'w cymryd i roi'r gwaharddiadau neu'r cyfyngiadau hynny ar waith.

Under Chapter II of Part I of the Countryside and Rights of Way Act 2000 (sections 21 to 33 of the Act), the right of access conferred by section 2(1) of the Act to any land ("access land") may be excluded or restricted. Under sections 23 and 32 of the Act, the National Assembly for Wales ("the National Assembly") has the power to make regulations to provide for the steps to be taken to bring those exclusions or restrictions into operation.

Mae adrannau 29 a 30 o'r Ddeddf yn darparu i apêl gael ei dwyn yn erbyn penderfyniadau penodol sy'n ymwneud â gwahardd neu gyfyngu mynediad. O dan adrannau 11 a 32 o'r Ddeddf, mae gan y Cynulliad Cenedlaethol bŵer i wneud rheoliadau sy'n darparu ar gyfer y gweithdrefnau sydd i fod yn gymwys i apelau o'r fath.

Sections 29 and 30 of the Act provide for an appeal to be brought against certain decisions relating to exclusions and restrictions of access. Under sections 11 and 32 of the Act, the National Assembly has the power to make regulations providing for the procedures which are to apply to such appeals.

Mae Rheoliad 3 yn nodi'r camau y mae'n rhaid i "berson â hawl" (perchennog y tir) eu cymryd i wahardd neu gyfyngu mynediad yn unol ag adran 22 o'r Ddeddf. Rhaid i'r person perthnasol hysbysu'r "awdurdod perthnasol" (Cyngor Cefn Gwlad Cymru neu, os yw'r tir mewn Parc Cenedlaethol, yr awdurdod Parc Cenedlaethol). Caiff y person perthnasol wahardd neu gyfyngu mynediad yn unol ag adran 22 o'r Ddeddf am uchafswm o 28 diwrnod mewn unrhyw flwyddyn galendr.

Regulation 3 sets out the steps which an "entitled person" (the owner of the land), has to take in order to exclude or restrict access in accordance with section 22 of the Act. The relevant person must give notice to the "relevant authority" (the Countryside Council for Wales or, where the land is in a National Park, the National Park authority). The relevant person can exclude or restrict access in accordance with section 22 of the Act for a maximum of 28 days in any calendar year.

Mae Rheoliad 4 yn nodi'r camau y mae'n rhaid i berchennog tir (a ddiffinnir yn adrannau 21 a 45 o'r Ddeddf) eu cymryd er mwyn cyfyngu ar fynediad i'r tir hwnnw â chwn o dan adran 23 o'r Ddeddf. Caniateir

Regulation 4 sets out the steps which an owner of land (defined in sections 21 and 45 of the Act) has to take in order to restrict access to that land with dogs under section 23 of the Act. Access to land with dogs

cyfyngu ar fynediad i dir â chwn os yw hynny'n angenrheidiol mewn cysylltiad ag wyna neu mewn cysylltiad â rheoli rhostiroedd grugieir.

Mae rheoliadau 5 i 12 yn nodi'r gweithdrefnau y mae'n rhaid eu dilyn mewn perthynas â chyfarwyddiadau gan awdurdodau perthnasol yn gwahardd neu'n cyfyngu mynediad o dan adrannau 24, 25 a 26 o'r Ddeddf, at ddibenion rheoli tir, er mwyn osgoi risg tân neu berygl i'r cyhoedd ac at ddibenion cadwraeth natur neu gadw treftadaeth, yn ôl eu trefn.

Mae rheoliad 13 yn nodi gofynion ynglŷn â hysbysiadau o dan gyfarwyddiadau nad ydynt eu hunain yn pennu'r cyfnodau pan yw'r gwaharddiad neu'r cyfyngiad i fod yn gymwys, ond yn lle hynny yn rhoi pŵer i berson a bennwyd yn y cyfarwyddyd osod y cyfnod hwnnw drwy hysbysu'r awdurdod perthnasol.

Mae rheoliad 14 yn nodi'r rhwymedigaethau y mae personau ac awdurdodau perthnasol odanynt i hysbysu'r cyhoedd o fodolaeth gwaharddiadau a chyfyngiadau.

Mae rheoliad 15 yn cymhwyso gofynion penodol ynghylch ffurf cyfarwyddiadau, ymgynghori a chyhoeddusrwydd i gyfarwyddiadau gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn gwahardd neu'n cyfyngu mynediad at ddibenion amddiffyn neu ddiogelwch cenedlaethol, yn amodol ar ddisgresiwn yr Ysgrifennydd Gwladol i ddatgymhwyso'r gofynion hynny mewn achosion penodol os yw'n amhriodol neu'n anarferol eu cymhwyso.

Mae rheoliadau 16 i 18 yn darparu ar gyfer apelau i'r Cynulliad Cenedlaethol, gan gynnwys addasu Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Gweithdrefnau Apelau) (Cymru) 2002 ((O.S. 2002/1794) (Cy. 169)) i fod yn gymwys i apelau o'r fath.

Mae rheoliad 19 yn galluogi cyfathrebiadau electronig i gael eu defnyddio at ddibenion cydymffurfio â'r gofynion sydd wedi'u cynnwys yn y Rheoliadau hyn.

Mae rheoliad 20 yn ei gwneud yn bosibl i dir gael ei ddynodi, wrth roi hysbysiad i'r awdurdod perthnasol o dan y Rheoliadau, â chyfeirnodau a ddyrannwyd gan yr awdurdodau perthnasol at y diben hwnnw.

can be restricted where this is necessary in connection with lambing or in connection with the management of grouse moors.

Regulations 5 to 12 set out the procedures which must be followed in relation to directions by relevant authorities excluding or restricting access under sections 24, 25 and 26 of the Act, for the purposes of land management, for the avoidance of fire risk or danger to the public and for purposes of nature conservation or heritage preservation, respectively.

Regulation 13 sets out requirements relating to notifications under directions which do not themselves specify the periods when the exclusion or restriction is to apply, but instead empower a person specified in the direction to fix that period by notifying the relevant authority.

Regulation 14 sets out the obligations on the part of relevant persons and authorities to inform the public of the existence of exclusions and restrictions.

Regulation 15 applies certain requirements relating to the form of directions, consultation and publicity to directions by the Secretary of State excluding or restricting access for purposes of defence or national security, subject to the discretion of the Secretary of State to disapply those requirements in particular cases where it is inappropriate or impracticable to apply them.

Regulations 16 to 18 make provision for appeals to the National Assembly, including the adaptation of The Countryside Access (Appeals Procedures) (Wales) Regulations 2002 ((S.I. 2002/1794) (W.169)) so as to apply to such appeals.

Regulation 19 enables electronic communications to be used for the purposes of complying with the requirements contained in these Regulations.

Regulation 20 enables land to be identified, when giving notice to the relevant authority under the Regulations, by reference numbers allocated by relevant authorities for that purpose.

**2003 Rhif 142 (Cy.14)****2003 No. 142 (W.14)****CEFN GWLAD, CYMRU****COUNTRYSIDE, WALES****Rheoliadau Mynediad i Gefn  
Gwlad (Gwahardd neu Gyfyngu  
Mynediad) (Cymru) 2003****The Countryside Access (Exclusion  
or Restriction of Access) (Wales)  
Regulations 2003***Wedi'u gwneud* 28 Ionawr 2003*Made* 28th January 2003*Yn dod i rym* 1 Mawrth 2003*Coming into force* 1st March 2003

## TREFN Y RHEOLIADAU

## ARRANGEMENT OF REGULATIONS

## Rhan I

## Part I

## CYFFREDINOL

## GENERAL

1. Enwi, cychwyn a chymhwyso
2. Dehongli

1. Citation, commencement and application
2. Interpretation

## Rhan II

## Part II

GWAHARDD NEU GYFYNGU MYNEDIAD YN  
ÔL DISGRESIWNDISCRETIONARY EXCLUSION OR  
RESTRICTION OF ACCESS

3. Gwahardd neu gyfyngu mynediad yn ôl disgresiwn y person â hawl
4. Cyfyngu mynediad â chŵn

3. Exclusion or restriction of access at the discretion of the entitled person
4. Restriction of access with dogs

## Rhan III

## Part III

GWAHARDD NEU GYFYNGU MYNEDIAD YN  
ÔL CYFARWYDDYD YR AWDURDOD  
PERTHNASOLEXCLUDING OR RESTRICTING ACCESS BY  
DIRECTION OF THE RELEVANT  
AUTHORITY

5. Ceisiadau am gyfarwyddiadau yn gwahardd neu'n cyfyngu mynediad
6. Ymgynghori gan awdurdod perthnasol cyn rhoi cyfarwyddyd yn gwahardd neu'n cyfyngu mynediad
7. Ymgynghori mewn perthynas â chyfarwyddiadau yn dirymu neu'n amrywio cyfarwyddiadau sy'n bodoli eisoes
8. Ystyried sylwadau
9. Penderfyniadau gan awdurdod perthnasol a ddylid rhoi cyfarwyddyd
10. Ffurf ar gyfarwyddiadau yn gwahardd neu'n cyfyngu mynediad
11. Rhoi cyfarwyddyd

5. Applications for directions excluding or restricting access
6. Consultation by a relevant authority before giving a direction excluding or restricting access
7. Consultation in relation to directions revoking or varying existing directions
8. Consideration of representations
9. Decisions by a relevant authority whether to give a direction
10. Form of directions excluding or restricting access
11. Giving a direction

12. Cyhoeddi penderfyniadau ar gyfarwyddiadau

Rhan IV

HYSBYSU O GYFNODAU GWAHARDD A  
CHYFYNGU

13. Hysbysu o waharddiad neu gyfyngiad

Rhan V

HYSBYSU'R CYHOEDD

14. Hysbysu'r cyhoedd o waharddiad neu  
gyfyngiad

Rhan VI

CYFARWYDDIADAU GAN YR  
YSGRIFENNYDD GWLADOL

15. Cymhwyso'r Rheoliadau hyn i  
gyfarwyddiadau gan yr Ysgrifennydd Gwladol

Rhan VII

APELAU

16. Apêl yn erbyn penderfyniad gan awdurdod  
perthnasol

17. Rhoi effaith i'r penderfyniad ar apêl

18. Gweithdrefnau apelau

Rhan VIII

AMRYWIOL

19. Defnyddio cyfathrebiad electronig

20. Disgrifiad o dir

Atodlen 1

Y cyrff sydd i'w hysbysu yn unol â rheoliad 6(2)

Atodlen 2

Diwygiadau i Reoliadau Mynediad i Gefn Gwlad  
(Gweithdrefnau Apelau) (Cymru) 2002

12. Publication of decisions on directions

Part IV

NOTIFICATION OF PERIODS OF EXCLUSIONS  
AND RESTRICTIONS

13. Notification of an exclusion or restriction

Part V

INFORMING THE PUBLIC

14. Informing the public of an exclusion or  
restriction

Part VI

DIRECTIONS BY THE SECRETARY  
OF STATE

15. Application of these Regulations to directions  
by the Secretary of State

Part VII

APPEALS

16. Appeal against a decision of a relevant  
authority

17. Giving effect to the decision on an appeal

18. Appeals procedures

Part VIII

MISCELLANEOUS

19. Use of electronic communication

20. Description of land

Schedule 1

Organisations to be notified pursuant to regulation  
6(2)

Schedule 2

Amendments to the Countryside Access (Appeals  
Procedures) (Wales) Regulations 2002

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 11, 23(1) a (2), 32 a 44 o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000(a) a phob pŵer arall sy'n ei alluogi yn y cyswllt hwnnw:

Rhan I  
CYFFREDINOL

**Enwi, cychwyn a chymhwys**

1.-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Mynediad i Cefn Gwlad (Gwahardd neu Gyfyngu Mynediad) (Cymru) 2003 a deuant i rym ar 1 Mawrth 2003.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru.

**Dehongli**

2.-(1) Yn y Rheoliadau hyn:

mae i "apêl" ("*appeal*") yr ystyr a roddir iddo yn rheoliad 16;

ystyr "apelydd" ("*appellant*") yw'r person sy'n dwyn apêl yn unol â rheoliad 16;

ystyr "asiant" ("*agent*") yw unrhyw berson sy'n gweithredu ar ran person arall gydag awdurdod y person hwnnw;

mae i "cyfathrebiad electronig" yr ystyr a briodolir i "*electronic communication*" yn adran 15 (1) o Ddeddf Cyfathrebiadau Electronig 2000(b);

ystyr "cyfnod apêl" ("*appeal period*") yw'r cyfnod o chwe wythnos o ddyddiad y penderfyniad sy'n arwain at yr apêl neu, os yw'r penderfyniad hwnnw yn benderfyniad i roi cyfarwyddyd, o ddyddiad y cyfarwyddyd;

ystyr "y Cyngor" ("*the Council*") yw Cyngor Cefn Gwlad Cymru;

ystyr "y Cynulliad Cenedlaethol" ("*the National Assembly*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

ystyr "diwrnod gwaith" ("*working day*") yw diwrnod heblaw dydd Sadwrn, dydd Sul, dydd

---

(a) 2000 p.37. Mae'r pwerau o dan adrannau 11 and 32 yn bwerau i wneud darpariaeth trwy reoliadau. Mae adran 23(1) a (2) yn darpau ar gyfer camau sydd i'w rhagnodi ("*prescribed*"). Ystyr "*prescribed*" yw wedi ei ragnodi gan reoliadau ac ystyr "rheoliadau" ("*regulations*") yw rheoliadau a wnaed gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru (gweler adran 45(1)).

(b) 2000 p.7.

The National Assembly for Wales makes the following Regulations in exercise of the powers conferred on it by sections 11, 23(1) and (2), 32 and 44 of the Countryside and Rights of Way Act 2000(a) and all other powers enabling it in that behalf:

Part I  
GENERAL

**Citation, commencement and application**

1.-(1) These Regulations may be cited as the Countryside Access (Exclusion or Restriction of Access) (Wales) Regulations 2003 and come into force on 1st March 2003.

(2) These Regulations apply to Wales.

**Interpretation**

2.-(1) In these Regulations:

"the Act" ("*y Ddeddf*") means the Countryside and Rights of Way Act 2000;

"agent" ("*asiant*") means any person acting on behalf of another person with that person's authority;

"appeal" ("*apêl*") has the meaning given in regulation 16;

"appeal form" ("*ffurflen apêl*") means a document which, when completed, contains the information specified in regulation 16(5);

"appeal period" ("*cyfnod apêl*") means the period of 6 weeks from the date of the decision giving rise to the appeal or, where that decision is a decision to give a direction, from the date of the direction;

"appellant" ("*apelydd*") means the person bringing an appeal in accordance with regulation 16;

"the Council" ("*y Cyngor*") means the Countryside Council for Wales;

"electronic communication" ("*cyfathrebiad electronig*") has the meaning assigned to that term in section 15(1) of the Electronic Communications Act 2000(b);

---

(a) 2000 c.37. The powers under sections 11 and 32 are to make provisions by regulations. Section 23(1) and (2) provide for steps to be "prescribed". "Prescribed" means prescribed by regulations and "regulations" means, as respects Wales, regulations made by the National Assembly for Wales.

(b) 2000 c.7.

Nadolig, dydd Gwener y Groglith neu ŵyl banc; ac mae hysbysiad sy'n cael ei roi ar ôl 4.30pm ar ddiwrnod gwaith i'w drin fel petai wedi'i roi ar y diwrnod gwaith nesaf;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000;

ystyr "fforwm mynediad lleol perthnasol" ("*relevant local access forum*") yw fforwm mynediad lleol a sefydlwyd o dan adran 94 o'r Ddeddf y mae'r ardal y mae'n gweithredu ynddi yn cynnwys y tir y mae cyfarwyddyd neu gyfarwyddyd arfaethedig yn berthnasol iddo;

ystyr "ffurflen apêl" ("*appeal form*") yw dogfen sy'n cynnwys, pan fydd wedi'i chwblhau, yr wybodaeth a ddynodir yn rheoliad 16(5);

ystyr "hawl mynediad" ("*right of access*") yw hawl y cyhoedd, mewn perthynas â thir mynediad, a honno'n hawl a roddwyd o dan adran 2(1) o'r Ddeddf; ac

mae "person" ("*person*") a "personau" ("*persons*") yn cynnwys unigolion, corfforaethau a chyirff anghorfforedig.

(2) Oni fydd y cyd-destun yn mynnu fel arall, mae unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn at reoliad â rhif yn gyfeiriad at y rheoliad sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Rheoliadau hyn ac mae unrhyw gyfeiriad mewn rheoliad at baragraff â rhif yn gyfeiriad at y paragraff sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y rheoliad hwnnw.

(3) Wrth gyfrifo unrhyw gyfnod sy'n cael ei ddatgan yn y Rheoliadau hyn yn gyfnod o ddyddiad penodol, nid yw'r dyddiad hwnnw i'w gynnwys ac, os yw'r diwrnod neu'r diwrnod olaf y mae'n ofynnol gwneud rhywbeth arno o dan y Rheoliadau hyn, neu'n unol â hwy yn ddydd Sul, yn ddydd Nadolig, yn ddydd Gwener y Groglith, yn ŵyl banc neu'n ddydd sydd wedi'i bennu ar gyfer diolchgarwch neu alar cyhoeddus, mae'r gofyniad i fod yn gymwys fel petai'r cyfeiriad at y dydd hwnnw yn gyfeiriad at y dydd cyntaf ar ôl hynny nad yw'n un o'r mathau o ddyddiau a grybwyllwyd uchod.

## Rhan II

### GWAHARDD NEU GYFYNGU MYNEDIAD YN ÔL DISGRESIWN

#### Gwahardd neu gyfyngu mynediad yn ôl disgrisiwn y person â hawl

3.-(1) Rhaid i berson â hawl sy'n dymuno gwahardd neu gyfyngu mynediad i ddarn o dir mynediad o dan adran 22 o'r Ddeddf (gwahardd neu gyfyngu mynediad yn ôl disgrisiwn y perchennog ac eraill) gydymffurfio â gofynion y rheoliad hwn er mwyn gwneud hynny.

(2) Rhaid i berson â hawl roi i'r awdurdod perthnasol hysbysiad ysgrifenedig, y mae'n rhaid iddo gynnwys:

"the National Assembly" ("*y Cynulliad Cenedlaethol*") means the National Assembly for Wales;

"person" ("*person*") and "persons" ("*personau*") include individuals, corporations and unincorporated bodies;

"relevant local access forum" ("*fforwm mynediad lleol perthnasol*") means a local access forum established under section 94 of the Act whose area of operation includes the land to which a direction or proposed direction relates;

"right of access" ("*hawl mynediad*") means the right of the public, in relation to access land, conferred by section 2(1) of the Act; and

"working day" ("*diwrnod gwaith*") means a day other than a Saturday, Sunday, Christmas Day, Good Friday or a bank holiday; and a notice given after 4.30pm on a working day is to be treated as given on the next working day.

(2) Unless the context otherwise requires any reference in these Regulations to a numbered regulation is a reference to the regulation bearing that number in these Regulations and any reference in a regulation to a numbered paragraph is a reference to the paragraph bearing that number in that regulation.

(3) In reckoning any period which is expressed in these Regulations to be a period from a given date, that date is to be excluded and, where the day or the last day on which anything is required by, or in pursuance with, these Regulations to be done is a Sunday, Christmas Day, Good Friday, bank holiday or a day appointed for public thanksgiving or mourning, the requirement is to apply as if the reference to that day were a reference to the first day thereafter which is not one of the classes of days before-mentioned.

## Part II

### DISCRETIONARY EXCLUSION OR RESTRICTION OF ACCESS

#### Exclusion or restriction of access at the discretion of the entitled person

3.-(1) An entitled person who wishes to exclude or restrict access to an area of access land under section 22 of the Act (exclusion or restriction of access at the discretion of owner and others) must, in order to do so, comply with the requirements of this regulation.

(2) The entitled person must give notice in writing to the relevant authority, which must include:

- (a) enw, cyfeiriad a chod post y person â hawl;
- (b) os yw'r person â hawl yn rhoi hysbysiad drwy asiant, enw, cyfeiriad a chod post yr asiant hwnnw;
- (c) datganiad o natur buddiant y person â hawl yn y tir;
- (ch) disgrifiad (boed hynny drwy gyfrwng map neu fel arall) o leoliad a hyd a lled y tir a hwnnw'n ddisgrifiad digon manwl i alluogi'r awdurdod perthnasol i adnabod y tir;
- (d) datganiad a yw'r person â hawl yn dymuno gwahardd mynediad neu, fel arall, ei gyfyngu ac, os yw am ei gyfyngu, manylion y cyfyngiad; ac
- (dd) dyddiadau y mae'r gwaharddiad neu'r cyfyngiad i fod yn gymwys arnynt ac, os yw'r person â hawl yn dymuno i'r gwaharddiad neu'r cyfyngiad bara am lai na'r cyfan o unrhyw ddiwrnod, rhwng pa amserau y mae'r gwaharddiad neu'r cyfyngiad i fod ar waith ar y diwrnod hwnnw.

(3) Oni fydd paragraff (4) neu (6) yn gymwys, rhaid rhoi hysbysiad ysgrifenedig er mwyn iddo ddod i law'r awdurdod perthnasol o leiaf bum diwrnod cyn unrhyw ddiwrnod y mae unrhyw waharddiad neu gyfyngiad i fod yn weithredol arno.

(4) Mae'r paragraff hwn yn gymwys:

- (a) os yw'r person â hawl wedi rhoi hysbysiad ysgrifenedig i'r awdurdod perthnasol sy'n cynnwys yr wybodaeth y cyfeiriwyd ati yn is-baragraffau (a) i (d) o baragraff (2) ond nad yw'n cynnwys yr wybodaeth y cyfeiriwyd ati yn is-baragraff (dd) o'r paragraff hwnnw; a
- (b) os oes o leiaf bum diwrnod wedi mynd heibio ers i'r hysbysiad hwnnw ddod i law'r awdurdod perthnasol.

(5) Os yw paragraff (4) yn gymwys, caiff y person â hawl wahardd neu gyfyngu mynediad yn unol â'r hysbysiad y cyfeiriwyd ato ym mharagraff (4)(a) a'r hysbysiad pellach y cyfeiriwyd ato yn y paragraff hwn drwy roi hysbysiad i'r awdurdod perthnasol o'r wybodaeth y cyfeiriwyd ati yn is-baragraff (dd) o baragraff (2), yn ysgrifenedig neu ar lafar (gan gynnwys dros y ffôn), fel y bydd yn dod i law'r awdurdod perthnasol ar y diwrnod gwaith olaf cyn y bwriedir i'r gwaharddiad neu'r cyfyngiad fod yn gymwys neu cyn hynny.

(6) Mae'r paragraff hwn yn gymwys os yw'r awdurdod perthnasol:

- (a) wedi cael hysbysiad, boed ysgrifenedig neu beidio, a hwnnw'n hysbysiad sy'n cynnwys yr wybodaeth y cyfeiriwyd ati yn is-baragraffau (a) i (dd) o baragraff (2);

- (a) the name, address and postcode of the entitled person;
- (b) if the entitled person is giving notice through an agent, the name, address and postcode of that agent;
- (c) a statement of the nature of the entitled person's interest in the land;
- (d) a description (whether by map or otherwise) of the location and extent of the land which is sufficiently detailed to enable the relevant authority to identify the land;
- (e) a statement whether the entitled person wishes to exclude access or, alternatively, to restrict it and, if to restrict it, details of the restriction; and
- (f) the dates on which the exclusion or restriction is to apply and, if the entitled person wishes the exclusion or restriction to last for less than the whole of any day, the times between which the exclusion or restriction are to operate on that day.

(3) Unless paragraph (4) or (6) applies, notice must be given in writing so that it is received by the relevant authority at least 5 days before any day on which any exclusion or restriction is to operate.

(4) This paragraph applies if:

- (a) the entitled person has given notice in writing to the relevant authority which includes the information referred to in sub-paragraphs (a) to (e) of paragraph (2) but which does not include the information referred to in sub-paragraph (f) of that paragraph; and
- (b) at least 5 days has elapsed since that notice was received by the relevant authority.

(5) If paragraph (4) applies, the entitled person may exclude or restrict access in accordance with the notice referred to in paragraph (4)(a) and the further notice referred to in this paragraph by giving the relevant authority notice of the information referred to in sub-paragraph (f) of paragraph (2), in writing or orally (including by telephone), so that it is received by the relevant authority on or before the last working day before the exclusion or restriction is intended to apply.

(6) This paragraph applies if the relevant authority:

- (a) has received notice, whether in writing or not, which includes the information referred to in sub-paragraphs (a) to (f) of paragraph (2);

- (b) wedi penderfynu nad oedd yn rhesymol arferol i'r person â hawl gydymffurfio â gofynion paragraff (3) neu (4) o'r rheoliad hwn; ac
- (c) yn cyfathrebu'r penderfyniad hwnnw i'r person â hawl, neu os oedd y person â hawl wedi rhoi hysbysiad drwy asiant, i'r asiant hwnnw.

(7) Os yw paragraff (6) yn gymwys, mae'r gwaharddiad neu'r cyfyngiad i ddod yn weithredol heb fod yn gynharach na'r amser y mae'r awdurdod perthnasol yn cyfathrebu'r penderfyniad y cyfeiriwyd ato ym mharagraff (6)(c) i'r person â hawl neu asiant y person â hawl, yn ôl fel y digwydd.

(8) Cyn gynted â phosibl ar ôl dod i benderfyniad yn unol â pharagraff (6)(b), rhaid i awdurdod perthnasol, oni bai ei fod eisoes wedi gwneud hynny drwy'r cyfathrebiad y cyfeiriwyd ato ym mharagraff (7), gadarnhau'r penderfyniad hwnnw yn ysgrifenedig i'r person â hawl.

(9) Caiff person â hawl sydd wedi rhoi hysbysiad yn unol â pharagraff (2) ond nad yw bellach yn dymuno i'r gwaharddiad neu'r cyfyngiad y mae'n berthnasol iddo ddod yn weithredol, roi, yn ddarostyngedig i baragraff (10), hysbysiad ysgrifenedig o'r ffaith honno i'r awdurdod perthnasol ac, os bydd yr hysbysiad hwnnw yn dod i law'r awdurdod perthnasol o leiaf ddau ddiwrnod gwaith cyn y diwrnod yr oedd y gwaharddiad neu'r cyfyngiad i fod yn gymwys, ni fydd effaith wedyn i'r hysbysiad gwreiddiol.

(10) Nid yw paragraff (9) yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw dir os yw'r person â hawl, ers 1 Ionawr yn y flwyddyn honno, eisoes wedi rhoi pum hysbysiad i'r awdurdod perthnasol dan sylw o dan y paragraff hwnnw mewn perthynas â'r tir hwnnw neu dir sy'n cynnwys y tir hwnnw.

### Cyfyngu mynediad â chŵn

4.-(1) Rhaid i berchennog tir mynediad sy'n dymuno cyfyngu hawl mynediad i ddarn o'r tir mynediad hwnnw o dan adran 23 o'r Ddeddf (cyfyngiadau ar gŵn yn ôl disgrisiwn y perchennog) gydymffurfio, er mwyn gwneud hynny, â gofynion y rheoliad hwn.

(2) Rhaid i'r perchennog roi i'r awdurdod perthnasol hysbysiad, y mae'n rhaid iddo gynnwys:

- (a) enw, cyfeiriad a chod post y perchennog;
- (b) os yw'r perchennog yn rhoi hysbysiad drwy asiant, enw, cyfeiriad a chod post yr asiant hwnnw;
- (c) datganiad o natur buddiant y perchennog yn y tir;
- (ch) disgrifiad (boed hynny drwy gyfrwng map neu fel arall) o leoliad a hyd a lled y tir hwnnw a hwnnw'n ddisgrifiad digon manwl i alluogi'r awdurdod perthnasol i adnabod y tir;

- (b) decides that it was not reasonably practicable for the entitled person to comply with the requirements of paragraph (3) or (4) of this regulation; and
- (c) communicates that decision to the entitled person or, where the entitled person gave notice through an agent, that agent.

(7) Where paragraph (6) applies, the exclusion or restriction is to take effect no earlier than the time when the relevant authority communicates the decision referred to in paragraph (6)(c) to the entitled person or the entitled person's agent, as the case may be.

(8) As soon as possible after reaching a decision in accordance with paragraph (6)(b), a relevant authority must, unless it has already done so by the communication referred to in paragraph (7), confirm that decision in writing to the entitled person.

(9) An entitled person who has given notice in accordance with paragraph (2) but who no longer wishes the exclusion or restriction to which it relates to take effect may, subject to paragraph (10), give the relevant authority notice in writing of that fact, and, if it is received by the relevant authority at least 2 working days before the day on which the exclusion or restriction was to apply, the original notice will then be of no effect.

(10) Paragraph (9) does not apply in relation to any land if the entitled person has, since 1st January of that year, already given 5 notices to the relevant authority in question under that paragraph in relation to that land or to land which includes that land.

### Restriction of access with dogs

4.-(1) An owner of access land who wishes to restrict the right of access to an area of that access land under section 23 of the Act (restrictions on dogs at the discretion of owner) must, in order to do so, comply with the requirements of this regulation.

(2) The owner must give notice to the relevant authority, which must include:

- (a) the name, address and postcode of the owner;
- (b) if the owner is giving notice through an agent, the name, address and postcode of that agent;
- (c) a statement of the nature of the owner's interest in the land;
- (d) a description (whether by map or otherwise) of the location and extent of the land which is sufficiently detailed to enable the relevant authority to identify the land;



(d) datganiad a yw'r cyfyngiad yn cael ei osod o dan adran 23(1) o'r Ddeddf neu, fel arall, adran 23(2) o'r Ddeddf; ac

(dd) y dyddiadau y mae'r gwahoddiad i fod yn gymwys arnynt ac, os yw'r perchennog yn dymuno i'r cyfyngiad bara am lai na'r cyfan o unrhyw ddiwrnod, rhwng pa amserau y bydd y cyfyngiad ar waith ar y diwrnod hwnnw.

(3) Os yw'r cyfyngiad yn cael ei osod o dan adran 23(1) o'r Ddeddf yna, oni fydd paragraff (5) yn gymwys, rhaid rhoi hysbysiad ysgrifenedig fel y bydd yn dod i law'r awdurdod perthnasol o leiaf 28 diwrnod cyn unrhyw ddiwrnod pryd y mae cyfyngiad i fod ar waith.

(4) Os yw'r cyfyngiad yn cael ei osod o dan adran 23(2) o'r Ddeddf yna, oni fydd paragraff (5) yn gymwys, rhaid rhoi hysbysiad ysgrifenedig fel y bydd yn dod i law'r awdurdod perthnasol o leiaf bum diwrnod gwaith cyn unrhyw ddiwrnod pryd y mae cyfyngiad i fod ar waith.

(5) Mae'r paragraff hwn yn gymwys os yw'r awdurdod perthnasol yn penderfynu nad oedd yn rhesymol ymarferol i'r perchennog gydymffurfio â gofynion paragraff (3) neu (4) (yn ôl fel y digwydd) ac yn cyfathrebu'r penderfyniad hwnnw i'r perchennog neu, os rhoddodd y perchennog hysbysiad drwy asiant, yr asiant hwnnw.

(6) Os yw paragraff (5) yn gymwys, bydd y cyfyngiad yn dod yn weithredol heb fod yn gynharach na'r amser y mae'r awdurdod perthnasol yn cyfathrebu'r penderfyniad y cyfeiriwyd ato ym mharagraff (5) i'r perchennog neu asiant y perchennog, yn ôl fel y digwydd.

(7) Cyn gynted â phosibl ar ôl dod i benderfyniad yn unol â pharagraff (5), rhaid i awdurdod perthnasol, oni bai ei fod eisoes wedi gwneud hynny drwy'r cyfathrebiad y cyfeiriwyd ato ym mharagraff (5), gadarnhau'r penderfyniad hwnnw yn ysgrifenedig i'r perchennog.

(8) Caiff perchennog sydd wedi rhoi hysbysiad yn unol â pharagraff (2) ond nad yw bellach yn dymuno i'r cyfyngiad y mae'n berthnasol iddo ddod yn weithredol (neu, os yw'r cyfyngiad eisoes wedi dod yn weithredol, nad yw'n dymuno iddo bara) roi hysbysiad ysgrifenedig i'r awdurdod perthnasol o'r effaith honno ac -

(a) os yw'n dod i law'r awdurdod perthnasol cyn i'r cyfyngiad ddod yn weithredol, ni fydd effaith wedyn i'r hysbysiad gwreiddiol;

(b) os yw'n dod i law'r awdurdod perthnasol ar ôl i'r cyfyngiad ddod yn weithredol, mae effaith y cyfyngiad yn dod i ben.

(e) a statement whether the restriction is being imposed under section 23(1) of the Act or, alternatively, section 23(2) of the Act; and

(f) the dates on which the restriction is to apply and, if the owner wishes the restriction to last for less than the whole of any day, the times between which the restriction will operate on that day.

(3) If the restriction is being imposed under section 23(1) of the Act then, unless paragraph (5) applies, notice must be given in writing so as to be received by the relevant authority at least 28 days before any day on which a restriction is to operate.

(4) If the restriction is being imposed under section 23(2) of the Act then, unless paragraph (5) applies, notice must be given in writing so that it is received by the relevant authority at least 5 working days before any day on which a restriction is to operate.

(5) This paragraph applies if the relevant authority decides that it was not reasonably practicable for the owner to comply with the requirements of paragraph (3) or (4) (as the case may be) and communicates that decision to the owner or, where the owner gave notice through an agent, that agent.

(6) Where paragraph (5) applies, the restriction is to take effect no earlier than the time when the relevant authority communicates the decision referred to in paragraph (5) to the owner or the owner's agent, as the case may be.

(7) As soon as possible after reaching a decision in accordance with paragraph (5), a relevant authority must, unless it has already done so by the communication referred to in paragraph (5), confirm that decision in writing to the owner.

(8) An owner who has given notice in accordance with paragraph (2) but who no longer wishes the restriction to which it relates to take effect (or, if the restriction has already taken effect, does not wish it to continue) may give the relevant authority notice in writing of that fact and-

(a) if it is received by the relevant authority before the restriction takes effect, the original notice will then be of no effect;

(b) if it is received by the relevant authority after the restriction has taken effect, the restriction ceases to have effect.

**GWAHARDD NEU GYFYNGU MYNEDIAD YN  
ÔL CYFARWYDDYD YR AWDURDOD  
PERTHNASOL**

**Ceisiadau am gyfarwyddiadau yn gwahardd neu'n cyfyngu mynediad**

5.-(1) Rhaid i berson sydd â buddiant mewn unrhyw dir mynediad ac sy'n dymuno gwneud cais am gyfarwyddyd yn gwahardd neu'n cyfyngu mynediad o dan adran 24(1) o'r Ddeddf (rheoli tir) neu adran 25(3) o'r Ddeddf (osgoi risg tân neu berygl i'r cyhoedd) wneud cais ysgrifenedig i'r awdurdod perthnasol.

(2) Rhaid i gais o dan baragraff (1) gynnwys:

- (a) enw, cyfeiriad a chod post y ceisydd;
- (b) os yw'r cais yn cael ei wneud drwy asiant, enw, cyfeiriad a chod post yr asiant hwnnw;
- (c) datganiad o natur buddiant y ceisydd yn y tir (gan gynnwys, os yw'r buddiant hwnnw yn cynnwys hawl comin neu hawl debyg dros dir, disgrifiad o hyd a lled yr hawl honno);
- (ch) datganiad ynghylch a yw'r cais yn cael ei wneud o dan adran 24(1) o'r Ddeddf neu, fel arall, o dan adran 25(3) o'r Ddeddf;
- (d) disgrifiad (boed hynny drwy gyfrwng map neu fel arall) o leoliad a hyd a lled y tir a hwnnw'n ddisgrifiad digon manwl i alluogi'r awdurdod perthnasol i adnabod y tir;
- (dd) manylion am natur a diben y gwaharddiad neu'r cyfyngiad;
- (e) y cyfnod penodedig y mae'r ceisydd yn cynnig bod y gwaharddiad neu'r cyfyngiad i fod ar waith ynddo; ac
- (f) y rhesymau, os oes rhai, pam na ellir cyflawni'r dibenion y gwneir cais am y cyfarwyddyd ar eu cyfer drwy arfer hawl y ceisydd, os oes un, i wahardd neu gyfyngu mynediad i'r tir o dan adran 22 o'r Ddeddf.

(3) Rhaid i geisydd, o fewn unrhyw gyfnod rhesymol y bydd yr awdurdod perthnasol yn gofyn amdano, ddarparu unrhyw wybodaeth bellach ynglŷn â'r cais y bydd yr awdurdod perthnasol yn gofyn yn rhesymol amdani drwy hysbysiad ysgrifenedig i'r ceisydd.

**Ymgynghori gan awdurdod perthnasol cyn rhoi cyfarwyddyd yn gwahardd neu'n cyfyngu mynediad**

6.-(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fydd yr awdurdod perthnasol yn ystyried a ddylid rhoi cyfarwyddyd o dan:

- (a) adran 24(1) o'r Ddeddf (rheoli tir);
- (b) adran 25(1) o'r Ddeddf (osgoi risg tân neu

**EXCLUDING OR RESTRICTING ACCESS BY  
DIRECTION OF THE RELEVANT  
AUTHORITY**

**Applications for directions excluding or restricting access**

5.-(1) A person interested in any access land who wishes to apply for a direction excluding or restricting access under section 24(1) of the Act (land management) or section 25(3) of the Act (avoidance of risk of fire or of danger to the public) must apply to the relevant authority in writing.

(2) An application under paragraph (1) must include:

- (a) the name, address and postcode of the applicant;
- (b) if the application is made through an agent, the name address and postcode of that agent;
- (c) a statement of the nature of the applicant's interest in the land (including, if that interest consists of a right of common or similar right over land, a description of the extent of that right);
- (d) a statement of whether the application is being made under section 24(1) of the Act or, alternatively, under section 25(3) of the Act;
- (e) a description (whether by map or otherwise) of the location and extent of the land which is detailed enough to enable the relevant authority to identify the land;
- (f) details of the nature and purpose of the exclusion or restriction;
- (g) the specified period during which the applicant proposes that the exclusion or restriction is to operate; and
- (h) the reasons, if any, why the purposes for which the direction is sought cannot be achieved by exercise of the applicant's right, if any, to exclude or restrict access to the land under section 22 of the Act.

(3) An applicant must, within such reasonable time as the relevant authority may require, supply such further information in relation to the application as the relevant authority may reasonably require by notice in writing to the applicant.

**Consultation by a relevant authority before giving a direction excluding or restricting access**

6.-(1) This regulation applies where the relevant authority is considering whether to give a direction under:

- (a) section 24(1) of the Act (land management);
- (b) section 25(1) of the Act (avoidance of risk of

beryl i'r cyhoedd); neu

- (c) adran 26 o'r Ddeddf (cadwraeth natur a chadw treftadaeth),

a hwnnw'n gyfarwyddyd y bydd ei effaith yn golygu gwahardd neu gyfyngu mynediad am gyfnod amhenodol neu yn ystod cyfnod sy'n hwy na chwe mis, neu a all fod yn hwy na hynny.

(2) Cyn rhoi cyfarwyddyd y mae'r rheoliad hwn yn gymwys iddo, rhaid i'r awdurdod perthnasol anfon hysbysiad yn cydymffurfio â gofynion paragraff (4), ynghyd â datganiad yn nodi telerau'r cyfarwyddyd arfaethedig, at bob un o'r cyrff a restrir yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau hyn a rhaid iddo gyhoeddi, os yw'n rhesymol ymarferol gwneud hynny, y cyfarwyddyd drafft ar wefan.

(3) Yn ychwanegol at y gofynion a nodwyd ym mharagraff (2), rhaid i'r awdurdod perthnasol:

- (a) anfon i'r fforwm mynediad lleol perthnasol gopi o'r canlynol:
- (i) datganiad sy'n nodi telerau'r cyfarwyddyd arfaethedig;
  - (ii) os yw'r cwestiwn o roi'r cyfarwyddyd yn cael ei ystyried o ganlyniad i gael cais, y cais hwnnw ac unrhyw wybodaeth bellach sy'n cael ei darparu gan y ceisydd i'w ategu;
  - (iii) os yw'r cwestiwn o roi'r cyfarwyddyd yn cael ei ystyried o ganlyniad i gyngor a roddwyd i'r awdurdod perthnasol gan y corff ymgynghorol perthnasol, sylwedd y cyngor hwnnw;
  - (iv) unrhyw wybodaeth arall sy'n berthnasol i'r cyfarwyddyd arfaethedig yn ei farn ef; a
- (b) anfon at y ceisydd neu asiant y ceisydd yn ôl fel y digwydd, gopiâu o unrhyw ddogfennau a anfonwyd i'r fforwm mynediad lleol, ac eithrio'r dogfennau hynny a gafodd yr awdurdod perthnasol oddi wrth y ceisydd neu asiant y ceisydd.

(4) Rhaid i hysbysiad sy'n cydymffurfio â gofynion y paragraff hwn:

- (a) datgan unrhyw gyfeirnod a ddyrannwyd i'r mater gan yr awdurdod perthnasol;
- (b) rhoi manylion am y modd y caiff aelodau o'r cyhoedd archwilio, a chymryd copi o'r dogfennau y cyfeiriwyd atynt ym mharagraff (3)(a);
- (c) datgan y caiff sylwadau ysgrifenedig, y caniateir iddynt gael eu cyflwyno naill ai yn Gymraeg neu'n Saesneg, gael eu cyflwyno i'r awdurdod perthnasol erbyn y dyddiad a bennir yn yr hysbysiad, a rhaid i'r dyddiad hwnnw beidio â bod yn gynt na dwy wythnos ar ôl y dyddiad y mae'r awdurdod perthnasol yn cydymffurfio â pharagraff (2); ac

fire or of danger to the public); or

- (c) section 26 of the Act (nature conservation and heritage preservation),

which will have the effect of excluding or restricting access indefinitely or during a period which exceeds, or may exceed, 6 months.

(2) Before giving a direction to which this regulation applies, the relevant authority must send a notice complying with the requirements of paragraph (4), together with a statement setting out the terms of the proposed direction, to each of the organisations listed in Schedule 1 to these Regulations and must, if it is reasonably practicable to do so, publish the draft direction on a web-site.

(3) The relevant authority must, in addition to the requirements set out in paragraph (2):

- (a) send to the relevant local access forum a copy of:
- (i) a statement setting out the terms of the proposed direction;
  - (ii) if the question of whether to give the direction is being considered as a result of receiving an application, that application and any further information supplied by the applicant in support of it;
  - (iii) if the question of whether to give the direction is being considered as a result of advice given to the relevant authority by the relevant advisory body, the substance of that advice;
  - (iv) such other information relevant to proposed direction as it thinks fit; and
- (b) send to the applicant or the applicant's agent, as the case may be, copies of any documents sent to the local access forum, other than those documents received by the relevant authority from the applicant or the applicant's agent.

(4) A notice complying with the requirements of this paragraph must:

- (a) state any reference number allocated to the matter by the relevant authority;
- (b) give particulars of the means by which members of the public may inspect, and take a copy of, the documents referred to in paragraph (3)(a);
- (c) state that representations in writing, which may be made either in the English language or the Welsh language, may be made to the relevant authority by such date as is specified in the notice, which must not be earlier than 2 weeks after the date on which the relevant authority complies with paragraph (2); and

(ch) datgan y caiff copiâu o unrhyw sylwadau sy'n dod i law'r awdurdod perthnasol gael eu rhoi ar gael i bartïon eraill y maent yn ymwneud â hwy.

(d) state that copies of any representations received by the relevant authority may be made available to other parties to whom they relate.

### **Ymgynghori mewn perthynas â chyfarwyddiadau yn dirymu neu'n amrywio cyfarwyddiadau sy'n bodoli eisoes**

7. Os yw'r awdurdod perthnasol yn ystyried rhoi cyfarwyddyd y byddai ei effaith yn golygu dirymu neu amrywio cyfarwyddyd sy'n bodoli eisoes ac os yw'n ofynnol iddo ymgynghori, cyn gwneud hynny, ag unrhyw berson o dan adran 27(5) neu 27(6) o'r Ddeddf, rhaid iddo, yn ychwanegol at unrhyw ofyniad arall a gynhwysir yn y Rheoliadau hyn, anfon datganiad sy'n nodi telerau'r cyfarwyddyd arfaethedig, ynghyd â hysbysiad yn cydymffurfio â gofynion rheoliad 6(4) at bob person o'r fath.

### **Consultation in relation to directions revoking or varying existing directions**

7. Where the relevant authority is considering giving a direction which would have the effect of revoking or varying an existing direction and is required, before doing so, to consult any person under section 27(5) or 27(6) of the Act, it must, in addition to any other requirement contained in these Regulations, send a statement setting out the terms of the proposed direction, together with a notice complying with the requirements of regulation 6(4) to each such person.

### **Ystyried sylwadau**

8. Os yw'n ofynnol i awdurdod perthnasol o dan y Rheoliadau hyn roi hysbysiad i unrhyw berson ei fod yn ystyried rhoi cyfarwyddyd, rhaid iddo ystyried, cyn penderfynu a ddylai roi cyfarwyddyd, unrhyw sylwadau a gyflwynwyd gan y person hwnnw o fewn yr amser a ganiateir ar gyfer cyflwyno sylwadau ac fe gaiff ystyried, os yw'n barnu bod hynny'n briodol, unrhyw sylwadau eraill sy'n dod i'w law.

### **Consideration of representations**

8. Where a relevant authority is required by these Regulations to give notice to any person that it is considering giving a direction, it must, before deciding whether to give a direction, consider any representations made by that person within the time permitted for making representations and may, if it thinks it appropriate, consider any other representations which it receives.

### **Penderfyniadau gan awdurdod perthnasol a ddylid rhoi cyfarwyddyd**

9.-(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys:

- (a) pan fo cais am gyfarwyddyd wedi'i wneud i'r awdurdod perthnasol; neu
- (b) pan fo'r awdurdod perthnasol wedi cael ei gynghori i roi cyfarwyddyd o dan adran 26(1) o'r Ddeddf gan y corff ymgynghorol perthnasol.

(2) Os yw'r rheoliad hwn yn gymwys, rhaid i'r awdurdod perthnasol, yn ddarostyngedig i baragraff (5), benderfynu a ddylid rhoi cyfarwyddyd, naill ai'n unol â'r cais neu'r cyngor y cyfeiriwyd ato ym mharagraff (1) neu ynghyd ag unrhyw addasiadau y bydd yn penderfynu arnynt, o fewn y cyfnod a bennir ym mharagraff (3) neu (4), yn ôl fel y digwydd.

(3) Os y bydd y gwaharddiad neu'r cyfyngiad ar waith yn ystod cyfnod o 6 mis neu lai yna, yn ddarostyngedig i baragraff (4), rhaid i'r awdurdod perthnasol benderfynu a ddylid rhoi cyfarwyddyd o fewn chwe wythnos (neu unrhyw gyfnod hwy y bydd y ceisydd neu, yn ôl fel y digwydd, y corff ymgynghorol perthnasol yn cytuno arno) ar ôl cael y cais neu'r cyngor.

(4) Os bydd y gwaharddiad neu'r cyfyngiad ar waith yn ystod cyfnod o fwy na chwe mis, neu os bydd y gwaharddiad neu'r cyfyngiad ar waith yn ystod

### **Decisions by a relevant authority whether to give a direction**

9.-(1) This regulation applies:

- (a) where an application for a direction has been made to the relevant authority; or
- (b) where the relevant authority has been advised to give a direction under section 26(1) of the Act by the relevant advisory body.

(2) Where this regulation applies, the relevant authority must, subject to paragraph (5), decide whether to give a direction, either in accordance with the application or advice referred to in paragraph (1) or with such modifications as it may determine, within the period specified in paragraph (3) or (4), as the case may be.

(3) Where the exclusion or restriction will operate during a period of 6 months or less then, then, subject to paragraph (4), the relevant authority must decide whether to give a direction within 6 weeks (or such longer period as the applicant or, as the case may be, the relevant advisory body agrees) of receiving the application or advice.

(4) Where the exclusion or restriction will operate during a period of more than 6 months, or where the exclusion or restriction will operate for corresponding

cyfnodau cyfatebol, o ba bynnag hyd, yn ystod dwy flynedd galendr wahanol neu ragor, rhaid i'r awdurdod perthnasol benderfynu a ddylid rhoi cyfarwyddyd o fewn 16 wythnos ar ôl cael y cais neu'r cyngor.

(5) Os yw'r rheoliad hwn yn gymwys a bod yr awdurdod perthnasol yn cael y cais neu'r cyngor y cyfeiriwyd ato ym mharagraff (1) -

- (a) cyn y dyddiad cyntaf y mae'r hawl mynediad i fod yn gymwys i bob tir y mae'r cyfarwyddyd arfaethedig yn ymwneud ag ef; a
- (b) y mae'r cyfnod y byddai'n ofynnol i'r awdurdod, yn unol â pharagraff (2), benderfynu ynddo a ddylid rhoi cyfarwyddyd yn dod i ben cyn y dyddiad hwnnw,

yna nid yw'n ofynnol i'r awdurdod perthnasol benderfynu a ddylid rhoi'r cyfarwyddyd o fewn y cyfnod hwnnw os nad yw'n rhesymol ymarferol gwneud hynny, ond yn hytrach rhaid iddo wneud hynny cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl i'r cyfnod hwnnw ddod i ben ond beth bynnag heb fod yn hwyrach na'r dyddiad y cyfeiriwyd ato yn is-baragraff (a).

(6) Os yw'r awdurdod perthnasol yn ei gwneud yn ofynnol i geisydd ddarparu gwybodaeth bellach o dan reoliad 5(3), rhaid peidio â chynnwys y cyfnod rhwng rhoi'r hysbysiad o'r gofyniad hwnnw gan yr awdurdod perthnasol a'r dyddiad y mae'r wybodaeth o dan sylw yn dod i law wrth gyfrifo unrhyw gyfnod y mae'n ofynnol i'r awdurdod perthnasol benderfynu ynddo a ddylid rhoi cyfarwyddyd.

### **Ffurf ar gyfarwyddiadau yn gwahardd neu'n cyfyngu mynediad**

**10.** -(1) Rhaid i gyfarwyddyd a roddir o dan adran 24(1), 25(1) neu 26(1) o'r Ddeddf gan awdurdod perthnasol:

- (a) dwyn y dyddiad y cafodd ei roi arno;
- (b) nodi'r ddarpariaeth yn y Ddeddf y mae wedi'i roi odani;
- (c) disgrifio (boed hynny drwy gyfrwng map neu fel arall) leoliad a hyd a lled y tir y mae'r gwaharddiad neu'r cyfyngiad i fod yn gymwys iddo;
- (ch) pennu ai effaith y cyfarwyddyd yw gwahardd mynediad i'r tir, neu fel arall, gyfyngu arno;
- (d) yn achos cyfarwyddyd sy'n cyfyngu mynediad ond nad yw'n ei wahardd, pennu graddau'r cyfyngiad; ac
- (dd) pennu'r cyfnod pryd y mae'r gwaharddiad neu'r cyfyngiad i fod yn gymwys neu, os oes rhywun ac eithrio'r person sy'n rhoi'r cyfarwyddyd i gael y pŵer i benderfynu'r cyfnod hwnnw yn unol ag adran 24(2)(b)(i), 25(2)(b)(i), 26(2)(c)(i) neu 28(2)(c)(i) o'r Ddeddf, yn ôl fel y digwydd, unrhyw amodau sy'n gymwys i'r pŵer hwnnw.

periods, of whatever length, in two or more different calendar years, the relevant authority must decide whether to give a direction within 16 weeks of receiving the application or advice.

(5) Where this regulation applies and the relevant authority receives the application or advice referred to in paragraph (1)-

- (a) before the first date on which the right of access is to apply to all land to which the proposed direction relates; and
- (b) the period within which the authority would be required, in accordance with paragraph (2), to decide whether to give a direction expires before that date,

then the relevant authority is not required to decide whether to give the direction within that period if it is not reasonably practicable to do so, but must instead do so as soon as reasonably practicable after the expiry of that period but in any event no later than the date referred to in sub-paragraph (a).

(6) If the relevant authority requires an applicant to supply further information under regulation 5(3), the period between the giving of notice of that requirement by the relevant authority and the receipt of the information in question is to be excluded when calculating any period within which the relevant authority is required to decide whether to give a direction.

### **Form of directions excluding or restricting access**

**10.** -(1) A direction given under section 24(1), 25(1) or 26(1) of the Act by a relevant authority must:

- (a) bear the date on which it is given;
- (b) identify the provision of the Act under which it is given;
- (c) describe (whether by map or otherwise) the location and extent of the land to which the exclusion or restriction is to apply;
- (d) specify whether the effect of the direction is to exclude access to the land or, alternatively, to restrict it;
- (e) in the case of a direction which restricts but does not exclude access, specify the extent of the restriction; and
- (f) specify the period during which the exclusion or restriction is to apply or, if some person other than the person who gives the direction is to have the power to determine that period in accordance with section 24(2)(b)(i), 25(2)(b)(i), 26(2)(c)(i) or 28(2)(c)(i) of the Act, as the case may be, any conditions which apply to that power.

(2) Rhaid i gyfarwyddyd a roddir o dan adran 27(2) o'r Ddeddf sy'n dirymu neu'n amrywio cyfarwyddyd sy'n bodoli eisoes:

- (a) dwyn y dyddiad y cafodd ei roi arno;
- (b) nodi o dan ba ddarpariaeth yn y Ddeddf y mae wedi'i roi;
- (c) bod yn un y mae copi o'r cyfarwyddyd y mae'n ei ddirymu neu'n ei amrywio wedi'i atodi iddo;
- (ch) datgan a yw ei effaith yn dirymu'r cyfarwyddyd sy'n bodoli eisoes neu'n ei amrywio; a
- (d) os ei effaith yw amrywio'r cyfarwyddyd sy'n bodoli eisoes, datgan sut y mae'n cael ei amrywio.

### Rhoi cyfarwyddyd

11. Mae cyfarwyddyd y mae awdurdod perthnasol yn penderfynu ei roi wedi'i roi pan fydd person sydd wedi'i awdurdodi gan yr awdurdod perthnasol i wneud hynny yn ei lofnodi ac yn ei ddyddio.

### Cyhoeddi penderfyniadau ar gyfarwyddiadau

12.-(1) Rhaid i'r canlynol gael ei wneud yn achos copi o unrhyw gyfarwyddyd a roddir neu, os yw rheoliad 9 yn gymwys ac os penderfyniad yr awdurdod perthnasol yw peidio â rhoi cyfarwyddyd, rhaid iddo gael ei wneud yn achos hysbysiad i'r perwyl hwnnw, a hynny cyn gynted â phosibl ar ôl i'r cyfarwyddyd gael ei roi neu ar ôl i'r penderfyniad i beidio â rhoi cyfarwyddyd gael ei wneud, yn ôl fel y digwydd:

- (a) os yw'n rhesymol ymarferol gwneud hynny, ei gyhoeddi gan yr awdurdod perthnasol ar wefan;
- (b) os oedd y cyfarwyddyd wedi'i roi (neu os byddai wedi'i roi pe na bai'r awdurdod perthnasol wedi penderfynu peidio â rhoi cyfarwyddyd) o ganlyniad i gais, ei anfon at y ceisydd, neu asiant y ceisydd, yn ôl fel y digwydd;
- (c) os cafodd y cyfarwyddyd ei roi (neu os byddai wedi'i roi pe na bai'r awdurdod perthnasol wedi penderfynu peidio â rhoi cyfarwyddyd) o dan adran 26 o'r Ddeddf, ei anfon i'r corff ymgynghorol perthnasol (os nad y Cyngor yw'r awdurdod perthnasol a bod y bwriad i wneud y cyfarwyddyd yn fwriad o dan adran 26(3)(a) o'r Ddeddf);
- (ch) os oedd cyfarwyddyd wedi'i roi mewn modd gwahanol i gais gan berchennog y tir y mae'n ymwneud ag ef, a bod yr awdurdod perthnasol yn gwybod pwy yw'r perchennog, ei anfon at y perchennog;
- (d) os oedd cyfarwyddyd wedi'i roi (neu os byddai wedi'i roi pe na bai'r awdurdod perthnasol wedi penderfynu peidio â rhoi cyfarwyddyd) yn dilyn ymgynghoriad â fforwm mynediad

(2) A direction given under section 27(2) of the Act revoking or varying an existing direction must:

- (a) bear the date on which it is given;
- (b) identify the provision of the Act under which it is given;
- (c) have annexed to it a copy of the direction which it revokes or varies;
- (d) state whether its effect is to revoke the existing direction or to vary it; and
- (e) if its effect is to vary the existing direction, state how it is varied.

### Giving a direction

11. A direction which a relevant authority has decided to give is given when a person authorised by the relevant authority to do so signs and dates it.

### Publication of decisions on directions

12.-(1) A copy of any direction given or, where regulation 9 applies and the decision of the relevant authority is not to give a direction, a notice to that effect, must, as soon as possible after the direction has been given or the decision not to give a direction has been taken, as the case may be:

- (a) if it is reasonably practicable to do so, be published by the relevant authority on a website;
- (b) if the direction was given (or would have been given had the relevant authority not decided not to give a direction) as a result of an application, be sent to the applicant, or the applicant's agent, as the case may be;
- (c) if the direction was given (or would have been given had the relevant authority not decided not to give a direction) under section 26 of the Act, be sent to the relevant advisory body (unless the relevant authority is the Council and the direction was proposed to be made under section 26(3)(a) of the Act);
- (d) if a direction was given otherwise than on the application of the owner of the land to which it relates, and the identity of the owner is known to the relevant authority, be sent to the owner;
- (e) if a direction was given (or would have been given had the relevant authority not decided not to give a direction) following consultation with a relevant local access forum in

lleol perthnasol yn unol â rheoliad 6(3), gael ei anfon at y fforwm mynediad lleol hwnnw;

- (dd) os yw cyfarwyddyd yn ymwneud â thir nad yw'r awdurdod perthnasol yn awdurdod mynediad ar ei gyfer hefyd, a bod y cyfarwyddyd yn cael ei roi naill ai o dan adran 24 neu 25 o'r Ddeddf, ei anfon at yr awdurdod mynediad mewn perthynas â'r tir hwnnw;
- (e) os oedd yn ofynnol i'r awdurdod perthnasol, cyn rhoi'r cyfarwyddyd, ymgynghori ag unrhyw berson o dan adran 27(5) neu 27(6) o'r Ddeddf, ei anfon at y person hwnnw; ac
- (f) os yw cyfarwyddyd yn cael ei roi gan awdurdod perthnasol heblaw'r Cyngor, gael ei anfon at y Cyngor.

(2) Os yw'n ofynnol i'r awdurdod perthnasol anfon copi o gyfarwyddyd y mae wedi'i roi, neu roi hysbysiad ei fod wedi penderfynu peidio â rhoi cyfarwyddyd, at unrhyw berson yn unol â pharagraff (1)(b), (c) neu (e), ac nad oedd y penderfyniad i roi cyfarwyddyd yn y termau y cafodd ei roi, neu i beidio â rhoi cyfarwyddyd, yn ôl fel y digwydd, yn unol â chais neu sylwadau eraill a gyflwynwyd gan y person hwnnw, rhaid i'r awdurdod perthnasol anfon, yr un pryd, at y person hwnnw ei resymau dros y penderfyniad hwnnw.

accordance with regulations 6(3), be sent to that local access forum;

- (f) where a direction relates to land in respect of which the relevant authority is not also the access authority, and the direction is given under either section 24 or 25 of the Act, be sent to the access authority in respect of that land;
- (g) where the relevant authority was required, before giving the direction, to consult any person under section 27(5) or 27(6) of the Act, be sent to that person; and
- (h) where a direction is given by a relevant authority other than the Council, be sent to the Council.

(2) Where the relevant authority is required to send a copy of a direction which it has given, or to give notice that it has decided not to give a direction, to any person in accordance with paragraph (1)(b), (c) or (g), and the decision to give a direction in the terms in which it was given, or not to give a direction, as the case may be, was not in accordance with an application or other representation made by that person, the relevant authority must also, at the same time, send that person its reasons for that decision.

#### Rhan IV

### HYSBYSU O GYFNODAU GWAHARDD A CHYFYNGU

#### Hysbysu o waharddiad neu gyfyngiad

**13.**-(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys os yw'n ofynnol o dan gyfarwyddyd:

- (a) i geisydd am gyfarwyddyd o dan adran 24(1) o'r Ddeddf; neu
- (b) i berson a bennwyd mewn cyfarwyddyd a roddwyd gan yr awdurdod perthnasol o dan adran 25(1) neu 26(1) o'r Ddeddf,

er mwyn i'r gwaharddiad neu'r cyfyngiad ddod yn weithredol, hysbysu'r awdurdod perthnasol bod y gwaharddiad neu'r cyfyngiad hwnnw wedi dechrau.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraffau (3) a (4), rhaid rhoi'r hysbysiad y cyfeiriwyd ato ym mharagraff (1) yn ysgrifenedig fel y bydd yn dod i law'r awdurdod perthnasol o leiaf bum diwrnod (neu'r nifer arall o ddiwrnodau sydd wedi'i bennu yn y cyfarwyddyd) cyn bod y gwaharddiad neu'r cyfyngiad yn dechrau a rhaid iddo gynnwys:

- (a) enw, cyfeiriad a chod post y person hwnnw;
- (b) os oes cyfeirnod wedi'i roi o'r blaen gan yr awdurdod perthnasol i'r person hwnnw at ddibenion hysbysu o dan y rheoliad hwn, y

#### Part IV

### NOTIFICATION OF PERIODS OF EXCLUSIONS AND RESTRICTIONS

#### Notification of an exclusion or restriction

**13.**-(1) This regulation applies where:

- (a) an applicant for a direction under section 24(1) of the Act; or
- (b) a person specified in a direction given by the relevant authority under section 25(1) or 26(1) of the Act,

is required by the directions, in order for the exclusion or restriction to take effect, to notify the relevant authority of the commencement of that exclusion or restriction.

(2) Subject to paragraphs (3) and (4), the notification referred to in paragraph (1) must be given in writing so as to be received by the relevant authority at least 5 days (or such other number of days as has been specified in the direction) before the exclusion or restriction commences and must include:

- (a) that person's name, address and postcode;
- (b) if a reference number has previously been given by the relevant authority to that person for the purposes of notification under this

cyfeirnod hwnnw; ac

- (c) y dyddiadau ac, os bydd y gwaharddiad neu'r cyfyngiad yn para am lai na 24 awr ar ddyddiad penodol, yr amserau pan fydd y gwaharddiad neu'r cyfyngiad ar waith.

(3) Caiff person sydd wedi rhoi hysbysiad yn unol â pharagraff (2) amrywio'r hysbysiad hwnnw neu ei dynnu'n ôl drwy roi hysbysiad ysgrifenedig pellach i'r awdurdod perthnasol, ar yr amod bod hysbysiad o'r fath yn dod i law o leiaf ddau ddiwrnod gwaith cyn y diwrnod y mae'r gwaharddiad neu'r cyfyngiad y mae'n ymwneud ag ef i ddechrau.

(4) Caiff yr awdurdod perthnasol, os yw o'r farn nad oedd yn rhesymol ymarferol rhoi'r hysbysiad yn unol â gofynion y rheoliad hwn, dderbyn hysbysiad sy'n cael ei roi gan berson â hawl i roi hysbysiad o'r fath unrhyw bryd cyn i'r cyfyngiad y mae'n gymwys iddo ddechrau ac, os yw'n penderfynu gwneud hynny, rhaid i'r awdurdod perthnasol anfon hysbysiad o'r penderfyniad hwnnw at y person a roddodd yr hysbysiad cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl iddo ddod i'r penderfyniad hwnnw.

## Rhan V

### HYSBYSU'R CYHOEDD

#### Hysbysu'r cyhoedd o waharddiad neu gyfyngiad

14.-(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys -

- (a) pan fydd gwaharddiad neu gyfyngiad mewn perthynas â mynediad dros dir mynediad mewn grym a'i fod wedi'i osod o dan adran 22(1), 23(1) neu 23(2) o'r Ddeddf neu o dan gyfarwyddyd a roddwyd o dan adran 24(1), 25(1) neu 26(1) o'r Ddeddf; a
- (b) os oes person sy'n gyfrifol, yn unol â pharagraff (2), dros hysbysu'r cyhoedd, yn unol â pharagraff (3), o'r gwaharddiad neu'r cyfyngiad o dan sylw ac nad yw'r person hwnnw yn dymuno caniatáu i bersonau fynd ar y tir yn groes i'r gwaharddiad neu'r cyfyngiad hwnnw.

(2) Y person canlynol yw'r person sy'n gyfrifol dros hysbysu'r cyhoedd mewn perthynas â gwaharddiad neu gyfyngiad -

- (a) os oedd wedi'i osod o dan adran 22(1), y person â hawl;
- (b) os oedd wedi'i osod o dan adran 23(1) neu (2) o'r Ddeddf, perchennog y tir;
- (c) os oedd wedi'i osod o dan gyfarwyddyd a roddwyd gan yr awdurdod perthnasol o ganlyniad i gael cais o dan adran 24(1) neu 25(3) o'r Ddeddf, ac os yw i fod ar waith yn ystod cyfnod o chwe mis neu lai, y person a wnaeth y cais;
- (ch) os oedd wedi'i osod o dan gyfarwyddyd a

regulation, that reference number; and

- (c) the dates and, if the exclusion or restriction will last for less than 24 hours on a given date, times during which the exclusion or restriction will operate.

(3) A person who has given notice pursuant to paragraph (2) may vary or withdraw that notice by giving further notice in writing to the relevant authority, provided such notice is received at least 2 working days before the day on which the exclusion or restriction to which it relates is to commence.

(4) The relevant authority may, where it considers it was not reasonably practicable for notice to be given in accordance with the requirements of this regulation, accept notice given by a person entitled to give such notice at any time before the commencement of the restriction to which it applies and, where it decides to do so, the relevant authority must send notification of that decision to the person who gave that notice as soon as practicable after reaching it.

## Part V

### INFORMING THE PUBLIC

#### Informing the public of an exclusion or restriction

14.-(1) This regulation applies-

- (a) when an exclusion or restriction of access over access land is in operation and has been imposed under section 22(1), 23(1) or 23(2) of the Act or under a direction given under section 24(1), 25(1) or 26(1) of the Act; and
- (b) there is a person responsible, in accordance with paragraph (2), for informing the public, in accordance with paragraph (3), of the exclusion or restriction in question and that person does not wish to permit persons to enter the land in contravention of that exclusion or restriction.

(2) The person responsible for informing the public in relation to an exclusion or restriction is-

- (a) if it was imposed under section 22(1), the entitled person;
- (b) if it was imposed under section 23(1) or (2) of the Act, the owner of the land;
- (c) if it was imposed under a direction given by the relevant authority in consequence of receiving an application under section 24(1) or 25(3) of the Act, and is to operate during a period of 6 months or less, the person who made the application;
- (d) if it was imposed under a direction given by



roddwyd gan yr awdurdod perthnasol o ganlyniad i gael cais o dan adran 24(1) neu 25(3) o'r Ddeddf ac os yw i fod ar waith yn ystod cyfnod o fwy na chwe mis, yr awdurdod perthnasol;

- (d) os oedd wedi'i osod o dan gyfarwyddyd a roddwyd gan yr awdurdod perthnasol o dan adran 25 o'r Ddeddf ac eithrio o ganlyniad i gael cais, yr awdurdod perthnasol;
- (dd) os oedd wedi'i osod o dan gyfarwyddyd a roddwyd gan yr awdurdod perthnasol o dan adran 26 o'r Ddeddf o ganlyniad i gael cyngor gan y corff ymgynghorol perthnasol o dan adran 26(4) o'r Ddeddf (ac eithrio cyngor a roddwyd ar gais yr awdurdod perthnasol), y corff ymgynghorol perthnasol; ac
- (e) os oedd wedi'i osod o dan gyfarwyddyd a roddwyd gan yr awdurdod perthnasol o dan adran 26 o'r Ddeddf, ond nad yw is-baragraff (dd) yn gymwys, yr awdurdod perthnasol.

(3) Os yw'r rheoliad hwn yn gymwys, rhaid i'r person sy'n gyfrifol dros hysbysu'r cyhoedd o'r gwaharddiad neu'r cyfyngiad roi i unrhyw berson sydd ar y tir neu ar fin mynd ar y tir y mae'r gwaharddiad neu'r cyfyngiad yn gymwys iddo er mwyn arfer yr hawl mynediad o dan y Ddeddf, unrhyw wybodaeth a fydd yn hysbysu'r person hwnnw o fodolaeth, natur a hyd y gwaharddiad neu'r cyfyngiad hwnnw, a hyd a lled y tir y mae'n gymwys iddo.

(4) Dim ond mewn perthynas â phersonau sydd, yn ôl bob golwg, ar y tir neu sydd ar fin mynd arno er mwyn arfer yr hawl mynediad sydd, bryd hynny, wedi'i gwahardd neu wedi'i chyfyngu y mae paragraff (3) yn gymwys iddynt.

(5) Caiff yr wybodaeth y mae'n ofynnol ei rhoi o dan baragraff (3) ei rhoi ar lafar.

(6) Nid yw'r ddyletswydd i roi gwybodaeth sy'n cael ei gosod gan baragraff (3) yn gymwys os oes camau rhesymol wedi'u cymryd i gyfathrebu, drwy gyfrwng hysbysiadau darllenadwy, yr wybodaeth a bennwyd yn y paragraff hwnnw i bersonau sydd ar fin mynd ar y tir er mwyn arfer yr hawl mynediad o dan y Ddeddf.

(7) Wrth benderfynu a oedd camau a gymerwyd i gyfathrebu gwybodaeth yn rhai rhesymol, yn ôl gofynion paragraff (6), rhaid rhoi sylw i unrhyw god ymddygiad a ddyroddwyd gan y Cyngor o dan adran 20(2) o'r Ddeddf.

(8) Rhaid i'r awdurdod perthnasol ar gyfer unrhyw dir y mae gwaharddiad neu gyfyngiad yn gymwys iddo, yn ychwanegol at unrhyw ddyletswydd arall sy'n cael ei gosod o dan y rheoliad hwn, gyhoeddi, pryd bynnag y bo'n ymarferol, fanylion am y gwaharddiad neu'r cyfyngiad hwnnw ar wefan.

(9) Os nad y Cyngor yw'r awdurdod perthnasol mewn perthynas ag unrhyw dir y mae gwaharddiad neu gyfyngiad yn gymwys iddo, rhaid i'r awdurdod

the relevant authority in consequence of receiving an application under section 24(1) or 25(3) of the Act and is to operate during a period of more than 6 months, the relevant authority;

- (e) if it was imposed under a direction given by the relevant authority under section 25 of the Act otherwise than in consequence of receiving an application, the relevant authority;
- (f) if it was imposed under a direction given by the relevant authority under section 26 of the Act in consequence of receiving advice from the relevant advisory body under section 26(4) of the Act (other than advice given at the request of the relevant authority), the relevant advisory body; and
- (g) if it was imposed under a direction given by the relevant authority under section 26 of the Act, but sub-paragraph (f) does not apply, the relevant authority.

(3) Where this regulation applies, the person responsible for informing the public of the exclusion or restriction must give any person who is on or about to enter the land to which the exclusion or restriction applies for the purpose of exercising the right of access under the Act, such information as will inform that person of the existence, nature and duration of that exclusion or restriction, and the extent of the land to which it applies.

(4) Paragraph (3) only applies in relation to persons who appear to be on the land or about to enter it for the purpose of exercising the right of access which is excluded or restricted at that time.

(5) The information which is required to be given by paragraph (3) may be given orally.

(6) The duty to give information imposed by paragraph (3) does not apply if reasonable steps have been taken to communicate, by means of legible notices, the information specified in that paragraph to persons about to enter the land for the purpose of exercising the right of access under the Act.

(7) In determining whether steps taken to communicate information were reasonable, as required by paragraph (6), regard is to be had to any code of conduct issued by the Council under section 20(2) of the Act.

(8) The relevant authority in respect of any land to which an exclusion or restriction applies must, in addition to any other duty imposed by this regulation, publish, whenever practicable, details of that exclusion or restriction on a web-site.

(9) Where the relevant authority in respect of any land to which an exclusion or restriction applies is not the Council, that relevant authority must, as soon as

perthnasol, cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl cael hysbysiad o waharddiad neu gyfyngiad arfaethedig, roi manylion ysgrifenedig amdano i'r Cyngor.

practicable after receiving notice of an intended exclusion or restriction, give details of it in writing to the Council.

## Rhan VI

### CYFARWYDDIADAU GAN YR YSGRIFENNYDD GWLADOL

#### **Cymhwyso'r Rheoliadau hyn i gyfarwyddiadau gan yr Ysgrifennydd Gwladol**

15.-(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), mae rheoliadau 6, 8 a 10 i 13 yn gymwys i gyfarwyddyd a roddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol, neu y mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn ystyried ei roi, o dan adran 28(1) o'r Ddeddf.

(2) Mae'r rheoliadau y cyfeiriwyd atynt ym mharagraff (1) yn gymwys i gyfarwyddyd a roddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol, neu y mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn ystyried ei roi, fel petai'r cyfeiriadau yn y rheoliadau hynny:

- (a) at "yr awdurdod perthnasol" yn gyfeiriadau at yr Ysgrifennydd Gwladol;
- (b) at adran 24(1), 25(1) neu 26(1) o'r Ddeddf yn gyfeiriadau, ym mhob achos, at adran 28(1) o'r Ddeddf; ac
- (c) at berson a bennwyd o dan gyfarwyddyd a roddwyd gan awdurdod perthnasol yn berson sy'n gallu hysbysu'r awdurdod perthnasol o gyfnod pan fydd mynediad i'r tir i'w wahardd neu i'w gyfyngu yn gyfeiriadau at berson a awdurdodwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol i roi hysbysiad o'r fath.

(3) Nid yw'r darpariaethau mewn unrhyw un o'r rheoliadau y cyfeiriwyd atynt ym mharagraff (1) yn gymwys mewn perthynas â chyfarwyddyd penodol a roddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol, neu y mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn ystyried ei roi, os yw'r Ysgrifennydd Gwladol o'r farn ei fod yn anymarferol neu'n amhriodol iddynt wneud hynny, naill ai yn eu cyfarwydd neu yn rhannol.

## Rhan VII

### APELAU

#### **Apêl yn erbyn penderfyniad gan awdurdod perthnasol**

16.-(1) At ddibenion y Rheoliadau hyn ystyr "apêl" yw:

- (a) unrhyw apêl o dan adran 30(3) o'r Ddeddf (apêl gan berson â buddiant mewn tir yn erbyn penderfyniad gan awdurdod perthnasol i beidio â gweithredu yn unol â chais neu

## Part VI

### DIRECTIONS BY THE SECRETARY OF STATE

#### **Application of these Regulations to directions by the Secretary of State**

15.-(1) Subject to paragraph (3), regulations 6, 8, and 10 to 13 apply to a direction given by the Secretary of State, or which the Secretary of State is considering giving, under section 28(1) of the Act.

(2) The regulations referred to in paragraph (1) apply to a direction given by the Secretary of State, or which the Secretary of State is considering giving, as if references in those regulations to:

- (a) "the relevant authority" were references to the Secretary of State;
- (b) section 24(1), 25(1) or 26(1) of the Act were, in each case, references to section 28(1) of the Act; and
- (c) a person specified under a direction given by a relevant authority as being able to notify the relevant authority of a period when access to land is to be excluded or restricted were references to a person authorised by the Secretary of State to give such notification.

(3) The provisions of any of the regulations referred to in paragraph (1) do not apply in relation to a particular direction given by the Secretary of State, or which the Secretary of State is considering giving, if the Secretary of State takes the view that it is impracticable or inappropriate that they should do so, either in whole or in part.

## Part VII

### APPEALS

#### **Appeal against a decision of a relevant authority**

16.-(1) For the purposes of these Regulations an "appeal" means:

- (a) any appeal under section 30(3) of the Act (appeal by a person interested in land against a decision by a relevant authority not to act in accordance with an application or

sylwadau a gyflwynwyd gan y person hwnnw); a

- (b) unrhyw gyfeiriad o dan adran 29(2) o'r Ddeddf (cyfeiriad gan y corff ymgynghorol perthnasol os yw'r awdurdod perthnasol yn penderfynu peidio â gweithredu yn unol â chyngor a roddwyd gan y corff hwnnw).

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), dim ond drwy anfon neu fynd â ffurflen apêl wedi'i chwblhau i'r Cynulliad Cenedlaethol fel ei bod yn dod i law cyn diwedd y cyfnod apelio y caiff apêl gael ei dwyn.

(3) Caiff apêl gael ei dwyn hefyd drwy anfon neu fynd â ffurflen apêl wedi'i chwblhau i'r Cynulliad Cenedlaethol fel ei bod yn dod i law ar ôl diwedd y cyfnod apelio os yw'r Cynulliad Cenedlaethol o'r farn nad oedd yn rhesymol ymarferol i'r apelydd gydymffurfio â gofynion paragraff (2) ac ar yr amod bod y ffurflen apêl sydd wedi'i chwblhau yn dod i law o fewn unrhyw gyfnod pellach ar ôl diwedd y cyfnod apelio y bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn barnu ei fod yn rhesymol o dan yr amgylchiadau.

(4) Os yw person sy'n dymuno dwyn apêl yn anfon neu'n mynd â hysbysiad ysgrifenedig o'r bwriad hwnnw i'r Cynulliad Cenedlaethol fel ei bod yn dod i law cyn diwedd y cyfnod apelio yna, ar yr amod bod y person hwnnw yn anfon neu'n mynd â ffurflen apêl wedi'i chwblhau i'r Cynulliad Cenedlaethol o fewn unrhyw gyfnod pellach y bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn ei wneud yn ofynnol, drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i'r person hwnnw, mae'r ffurflen apêl honno i'w thrin fel petai wedi dod i law cyn diwedd y cyfnod apelio.

(5) Mae'r wybodaeth y mae'n rhaid i ffurflen apêl sydd wedi'i chwblhau ei chynnwys fel a ganlyn:

- (a) enw, cyfeiriad a chod post yr apelydd;
- (b) digon o fanylion am y tir y mae'r apêl yn ymwneud ag ef er mwyn ei gwneud yn bosibl i adnabod y tir hwnnw ar fap sydd i'w ddarparu gan yr apelydd;
- (c) unrhyw fanylion a fydd yn galluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i ddeall ar ba sail y mae'r apêl wedi'i dwyn;
- (ch) natur buddiant yr apelydd yn y tir sy'n destun yr apêl; a
- (d) a yw'r apelydd yn dymuno cael ei wrando gan berson a benodir gan y Cynulliad Cenedlaethol mewn cysylltiad â'r apêl (yn hytrach na bod yr apêl yn cael ei phenderfynu ar sail sylwadau ysgrifenedig) ac, os felly, a yw'r apelydd yn dymuno cael ei wrando mewn ymchwiliad lleol neu, fel arall, mewn gwrandawriad.

(6) Caiff ffurflen apêl fod naill ai yn Gymraeg neu Saesneg ond, os yw'r apelydd yn dymuno bod yr apêl yn cael ei thrin yn gyfan gwbl neu'n rhannol drwy gyfrwng yr iaith heblaw'r un y mae'r ffurflen apêl

representations made by that person); and

- (b) any reference under section 29(2) of the Act (reference by the relevant advisory body where the relevant authority decides not to act in accordance with advice given by that body).

(2) Subject to paragraph (3), an appeal may only be brought by sending or delivering to the National Assembly a completed appeal form which is received before the end of the appeal period.

(3) An appeal may also be brought by sending or delivering to the National Assembly a completed appeal form which is received after the end of the appeal period if the National Assembly considers that it was not reasonably practicable for the appellant to comply with the requirements of paragraph (2) and provided the completed appeal form is received within such further period after the end of the appeal period as the National Assembly considers reasonable in the circumstances.

(4) If a person who wishes to bring an appeal sends or delivers to the National Assembly written notice of that intention which is received before the end of the appeal period then, provided that person sends or delivers to the National Assembly a completed appeal form within such further period as the National Assembly may, by giving written notice to that person, require, that appeal form is to be treated as if it had been received before the end of the appeal period.

(5) The information which a completed appeal form must contain is:

- (a) the name, address and postcode of the appellant;
- (b) sufficient particulars of the land to which the appeal relates so as to enable that land to be identified on a map to be provided by the appellant;
- (c) such particulars as will enable the National Assembly to understand the grounds on which the appeal has been brought;
- (d) the nature of the interest of the appellant in the land which is subject to the appeal; and
- (e) whether the appellant wishes to be heard by a person appointed by the National Assembly in connection with the appeal (rather than that the appeal be determined on the basis of written representations) and, if so, whether the appellant wishes to be heard at a local inquiry or, alternatively, at a hearing.

(6) An appeal form may be in either the English language or the Welsh language but, if the appellant wishes the appeal to be dealt with in whole or in part through the medium of the language other than that in

wedi'i mynegi ynddi, dylai'r ffurflen apêl ymgorffori cais i'r perwyl hwnnw neu rhaid i gais felly fynd gyda hi.

### **Rhoi effaith i'r penderfyniad ar apêl**

17.-(1) Os yw apêl yn apêl yn erbyn penderfyniad gan awdurdod perthnasol i beidio â rhoi cyfarwyddyd a bod penderfyniad y Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas â'r apêl honno yn benderfyniad y dylai'r awdurdod perthnasol roi cyfarwyddyd, rhaid i'r awdurdod perthnasol roi cyfarwyddyd cyn gynted â phosibl, yn unol â phenderfyniad y Cynulliad Cenedlaethol a rhaid iddo gydymffurfio â gofynion rheoliad 12(1) (ond nid rhai rheoliad 12(2)) mewn perthynas ag ef.

(2) Os yw'r Cynulliad Cenedlaethol yn penderfynu ar apêl y dylai telerau cyfarwyddyd fod yn wahanol i rai'r cyfarwyddyd a roddwyd yn wreiddiol gan yr awdurdod perthnasol, rhaid i'r awdurdod perthnasol baratoi, cyn gynted â phosibl, gyfarwyddyd diwygiedig yn unol â'r penderfyniad hwnnw, gan ymgorffori datganiad mai cyfarwyddyd ydyw sydd wedi'i ddiwygio oherwydd y penderfyniad hwnnw, a rhaid iddo gydymffurfio â gofynion rheoliad 12(1) (ond nid rhai rheoliad 12(2)) mewn perthynas ag ef.

(3) Mae effaith i gyfarwyddyd y mae'n ofynnol diwygio ei delerau yn unol â phenderfyniad y Cynulliad Cenedlaethol ar apêl fel y bo wedi'i ddiwygio o ddyddiad y penderfyniad hwnnw.

(4) Os penderfyniad y Cynulliad Cenedlaethol, mewn perthynas ag apêl, yw penderfyniad y dylid dileu cyfarwyddyd a roddwyd gan awdurdod perthnasol, rhaid i'r awdurdod perthnasol, cyn gynted â phosibl, baratoi datganiad i'r perwyl hwnnw a chydymffurfio â gofynion rheoliad 12(1) (ond nid rhai rheoliad 12(2)) mewn perthynas ag ef, fel petai'r datganiad yn gyfarwyddyd yn dirymu'r un a roddwyd yn wreiddiol.

(5) Mae effaith cyfarwyddyd sy'n cael ei ddileu yn unol â phenderfyniad y Cynulliad Cenedlaethol ar apêl yn dod i ben o ddyddiad y penderfyniad hwnnw.

(6) Mae cyfeiriadau yn y rheoliad hwn at benderfyniadau'r Cynulliad Cenedlaethol yn cynnwys cyfeiriadau at benderfyniadau gan bersonau a benodwyd ac a awdurdodwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol i benderfynu ar apelau.

### **Gweithdrefnau apelau**

18. Mae Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Gweithdrefnau Apelau) Cymru 2002(a) ("y Rheoliadau Gweithdrefnau Apelau") yn cael eu diwygio yn unol ag Atodlen 2 i'r Rheoliadau hyn.

which the appeal form is expressed, the appeal form should incorporate or be accompanied by a request to that effect.

### **Giving effect to the decision on an appeal**

17.-(1) Where an appeal is against a decision by a relevant authority not to give a direction and the decision of the National Assembly in relation to that appeal is that the relevant authority should give a direction, the relevant authority must, as soon as possible, give a direction in accordance with the decision of the National Assembly and must comply with the requirements of regulation 12(1) (but not those of regulation 12(2)) in relation to it.

(2) Where on an appeal the National Assembly decides that the terms of a direction should be different from those of the direction originally given by the relevant authority, the relevant authority must, as soon as possible, prepare an amended direction in accordance with that decision, incorporating a statement that it is a direction amended by reason of that decision, and must comply with the requirements of regulation 12(1) (but not those of regulation 12(2)) in relation to it.

(3) A direction whose terms are required to be amended in accordance with a decision of the National Assembly on an appeal has effect as so amended from the date of that decision.

(4) Where the decision of the National Assembly, in relation to an appeal, is that a direction given by a relevant authority should be cancelled, the relevant authority must, as soon as possible, prepare a statement to that effect and comply with the requirements of regulation 12(1) (but not those of regulation 12(2)) in relation to it, as if the statement were a direction revoking that originally given.

(5) A direction which is cancelled in accordance with a decision of the National Assembly on an appeal ceases to have effect from the date of that decision.

(6) References in this regulation to decisions of the National Assembly include references to decisions by appointed persons authorised by the National Assembly to decide appeals.

### **Appeals procedures**

18. The Countryside Access (Appeals Procedures) (Wales) Regulations 2002(a) ("the Appeals Procedures Regulations") are amended in accordance with Schedule 2 to these Regulations.

(a) O.S. 2002/1794 (Cy.169).

(a) S.I. 2002/1794 (W.169).

**Defnyddio cyfathrebiad electronig**

19. Caiff unrhyw ddogfen y mae'n ofynnol ei hanfon neu yr awdurdodwyd ei hanfon gan un person i berson arall o dan ddarpariaethau'r Rheoliadau hyn, ei hanfon drwy'r post neu drwy gyfrwng gyfathrebiad electronig a dylid dehongli unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn at ysgrifen, sut bynnag y mae wedi'i fynegi, fel cyfeiriad sy'n cynnwys cyfeiriad at ffurf y mae modd ei storio, ei throsglwyddo i gyfrifiadur ac ohono, a'i darllen drwy gyfrwng cyfrifiadur.

**Disgrifiad o dir**

20. Pan fydd y Rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson roi hysbysiad i awdurdod perthnasol sy'n cynnwys disgrifiad o unrhyw dir, a bod yr awdurdod perthnasol hwnnw wedi neilltuo o'r blaen i'r darn o dir hwnnw gyfeirnod i'r perwyl hwnnw, dylid ystyried bod dynodi'r tir hwnnw drwy gyfeirio at y rhif hwnnw yn ddigon i gydymffurfio â'r gofyniad hwnnw.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(a).

28 Ionawr 2003

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

**Use of electronic communication**

19. Any document required or authorised to be sent by one person to another under the provisions of these Regulations may, be sent by post or by means of electronic communication and any reference in these Regulations, however expressed, to writing, is to be construed as including a reference to a form capable of being stored on, transmitted to and from, and read by means of a computer.

**Description of land**

20. Where these Regulations require any person to give notice to a relevant authority which includes a description of any land, and that relevant authority has previously allotted to that area of land a reference number for that purpose, the identification of that land by reference to that number is to be regarded as sufficient to comply with that requirement.

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(a).

28th January 2003

Presiding Officer of the National Assembly

*D. Elis-Thomas*

---

(a) 1998 p.38.

---

(a) 1998 c.38.

### Atodlen 1

Rheoliad 6(2)

#### **Y CYRFF SYDD I'W HYSBYSU YN UNOL Â RHEOLIAD 6(2)**

Unrhyw awdurdod mynediad mewn perthynas â thir y mae'r cyfarwyddyd arfaethedig yn ymwneud ag ef.

Y Gymdeithas Brydeinig ar gyfer Saethu a Chadwraeth

Cyngor Mynydda Prydain

Cymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad

Yr Asiantaeth Cefn Gwlad (os oes gan y tir o dan sylw ffin â Lloegr)

Undeb Amaethwyr Cymru

Undeb Cenedlaethol y Ffermwyr (Cymru)

Cymdeithas y Mannau Agored

Cymdeithas y Crwydwyr

### Schedule 1

Regulation 6(2)

#### **ORGANISATIONS TO BE NOTIFIED PURSUANT TO REGULATION 6(2)**

Any access authority in respect of land to which the proposed direction relates

British Association for Shooting and Conservation

British Mountaineering Council

Country Land and Business Association

The Countryside Agency (where the land in question has a border with England)

Farmers' Union of Wales

National Farmers' Union (Wales)

Open Spaces Society

Ramblers' Association

## Atodlen 2

Rheoliad 18

### DIWYGIADAU I REOLIADAU MYNEDIAD I GEFN GWLAD (GWEITHDREFNAU APELAU) (CYMRU) 2002

1. Yn rheoliad 2(1), ychwanegwch at y diffiniad o "apêl", ar ôl y gair "Ddeddf":

"neu gyfeiriad o dan adran 29(2) o'r Ddeddf."

2. Dilëwch Rheoliad 4, a rhowch yn ei le:

"4.-(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), rhaid i'r atebydd, o fewn 14 diwrnod gwaith ar ôl iddo gael ffurflen apêl oddi wrth y Cynulliad Cenedlaethol, anfon at y Cynulliad Cenedlaethol ac at yr apelydd:

- (a) datganiad a fydd yn gwrthwynebu'r apêl ac, os felly, ei seiliau dros wneud hynny;
- (b) datganiad a ydyw'n dymuno cael gwrandawriad gan berson a benodir gan y Cynulliad Cenedlaethol mewn cysylltiad â'r apêl (yn hytrach na bod yr apêl yn cael ei phenderfynu ar sail sylwadau ysgrifenedig) ac, os felly, a yw'n dymuno cael gwrandawriad mewn ymchwiliad lleol neu, fel arall, mewn gwrandawriad;
- (c) copiâu o unrhyw ohebiaeth berthnasol rhwng yr apelydd a'r atebydd;
- (ch) copiâu o unrhyw sylwadau a wnaed i'r atebydd gan unrhyw berson heblaw'r apelydd mewn perthynas â'r penderfyniad ar ran yr atebydd y mae'r apêl yn perthyn iddo; a
- (d) unrhyw wybodeth bellach y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn gofyn am ei darparu.

(2) Yn achos apêl o dan adran 6 o'r Ddeddf:

- (a) rhaid i'r atebydd, yn ychwanegol, anfon at y Cynulliad Cenedlaethol, cyn i'r cyfnod a bennir ym mharagraff (1) ddirwyn i ben, gopi o ddarn o fap sy'n dangos y rhan honno o'r map dros dro y mae'r apêl yn perthyn iddi;
- (b) ni fydd rhaid i'r atebydd anfon y datganiadau y cyfeirir atynt ym mharagraff (1)(a) ac (1)(b) o fewn y cyfnod a bennir ym mharagraff (1) ond rhaid iddo wneud hynny cyn i'r cyfnod a bennir yn rheoliad 5(2)(a) neu 5(2)(b) (pa un bynnag sydd hwyraf) ddirwyn i ben ac mae'n rhaid iddo, yr un pryd, anfon at y Cynulliad Cenedlaethol unrhyw wybodaeth pellach y mae'r Cynulliad Cenedlaethol, erbyn hynny, wedi gofyn i'r atebydd ddarparu; ac

## Schedule 2

Regulation 18

### AMENDMENTS TO THE COUNTRYSIDE ACCESS (APPEALS PROCEDURES) (WALES) REGULATIONS 2002

1. In regulation 2(1), add to the definition of "appeal", after "Act":

"or a reference under section 29(2) of the Act."

2. Delete Regulation 4, and substitute:

"4.-(1) Subject to paragraph (2), the respondent must, within 14 days of receiving from the National Assembly a copy of the appeal form, send to the National Assembly and to the appellant:

- (a) a statement as to whether it will oppose the appeal and, if so, its grounds for doing so;
- (b) a statement as to whether it wishes to be heard by a person appointed by the National Assembly in connection with the appeal (rather than that the appeal be determined on the basis of written representations) and, if so, whether it wishes to be heard at a local inquiry or, alternatively, at a hearing;
- (c) copies of any relevant correspondence between the appellant and the respondent;
- (d) copies of any representations made to the respondent by any person other than the appellant in respect of the decision on the part of the respondent to which the appeal relates, and
- (e) any further information required by the National Assembly to be provided.

(2) In the case of an appeal under section 6 of the Act, the respondent:

- (a) must, in addition, send to the National Assembly, within the period specified in paragraph (1), a copy of an extract showing that part of the provisional map to which the appeal relates;
- (b) need not send the statements referred to in paragraph (1)(a) and (1)(b) within the period specified in paragraph (1) but must do so before the expiry of the period specified in regulation 5(2)(a) or 5(2)(b) (whichever is the later) and must, at the same time, send the National Assembly any further information which the National Assembly has, by that time, required the respondent to provide; and

- (c) os na fydd, o fewn y cyfnod a bennir ym mharagraff (1), yn anfon at y Cynulliad Cenedlaethol y datganiadau y cyfeirir atynt ym mharagraff (1)(a) ac (1)(b), rhaid i'r atebydd, yn lle hynny, anfon at y Cynulliad Cenedlaethol, o fewn y cyfnod hwnnw, datganiad sy'n cynnwys rhywbeth i ddangos a fydd yn gwrthwynebu'r apêl ac, os felly, y seiliau tebygol dros wneud hynny."
3. Dilëwch reoliad 5(2)(a) a rhowch yn ei le:
- "(a) cyn bod 35 diwrnod yn dirwyn i ben o'r dyddiad yr anfonodd y Cynulliad Cenedlaethol gopi o'r ffurflen apêl wedi'i chwblhau at yr atebydd yn unol â rheoliad 3; neu".
4. Yn rheoliad 6(1)-
- (a) ychwanegwch, ar ddechrau is-baragraff(a):
- "ac eithrio yn achos apêl o dan adran 30(3) o'r Ddeddf neu gyfeiriad o dan adran 29(2) o'r Ddeddf,"
- (b) ychwanegwch, ar ôl is-baragraff (c):
- "(ch) yn achos apêl o dan adran 30(3) o'r Ddeddf neu gyfeiriad o dan adran 29(2) o'r Ddeddf, rhoi hysbysiad i:
- (i) yr awdurdod mynediad;
- (ii) y fforwm mynediad lleol perthnasol;
- (iii) unrhyw berson sydd wedi cyflwyno sylwadau i'r awdurdod perthnasol mewn perthynas â'r cyfarwyddyd y mae'r apêl yn ymwneud ag ef yn unol â darpariaethau Rheoliadau mynediad i Gefn Gwlad (Gwahardd neu Gyfyngu Mynediad) (Cymru) 2003; a
- (iv) unrhyw berson arall y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn barnu ei bod yn briodol rhoi hysbysiad iddo."
5. Yn ngeiriau agoriadol rheoliad 6(2), ychwanegwch, ar ôl "o dan baragraff (1)(c)":
- "neu (1)(ch)".
6. Yn lle rheoliad 6(2)(c), rhowch:
- "(c) ar ba seiliau y mae'r apêl wedi'i dwyn, neu, yn achos apêl sydd wedi'i dwyn o dan adran 6 o'r Ddeddf, datganiad o dan ba un o'r seiliau a bennwyd yn adran 6(3) y mae wedi'i dwyn."
7. Yn rheoliad 6(4), yn lle "yn unol â pharagraff (1)(a), (b) neu (c)", rhowch:
- "yn unol â pharagraff (1)(a), (b), (c) neu (ch)."
- (c) if it does not, within the period specified in paragraph (1) send the National Assembly the statements referred to in paragraph (1)(a) and (1)(b), must, instead, send the National Assembly, within that period, a statement containing an indication as to whether it will oppose the appeal and, if so, its likely grounds for doing so."
3. Delete regulation 5(2)(a) and substitute:
- "(a) the expiry of 35 days from the date on which the National Assembly sent a copy of the completed appeal form to the respondent in accordance with regulation 3; or".
4. In regulation 6(1)-
- (a) add, at the start of sub-paragraph (a):
- "except in the case of an appeal under section 30(3) of the Act or a reference under section 29(2) of the Act,"
- (b) add, after sub-paragraph (c):
- "(d) in the case of an appeal under section 30(3) of the Act or a reference under section 29(2) of the Act, give notice to:
- (i) the access authority;
- (ii) the relevant local access forum;
- (iii) any person who has made representations to the relevant authority in relation to the direction to which the appeal relates in accordance with the provisions of the Countryside Access (Exclusion or Restriction of Access) (Wales) Regulations 2003; and
- (iv) any other person to whom the National Assembly considers it appropriate to give notice."
5. In the opening words of regulation 6(2), add, after "under paragraph (1)(c)":
- "or (1)(d)".
6. For regulation 6(2)(c), substitute:
- "(c) the grounds on which the appeal has been brought, or, in the case of an appeal brought under section 6 of the Act, a statement of which of the grounds specified in section 6(3) it has been brought under."
7. In regulation 6(4), for "in accordance with paragraph (1)(a), (b) or (c)", substitute:
- "in accordance with paragraph (1)(a), (b), (c) or (d)."



8. Yn rheoliad 12(1)(c), ychwanegwch, ar ôl "berson â diddordeb":

"ac, yn achos apêl o dan adran 30(3) o'r Ddeddf neu gyfeiriad o dan adran 29(2) o'r Ddeddf, unrhyw berson yr oedd hysbysiad wedi'i roi iddo o dan reoliad 6(1)(ch),"

9. Ychwanegwch, ar ddechrau rheoliad 12(1)(ch):

"ac eithrio yn achos apêl o dan adran 30(3) o'r Ddeddf neu gyfeiriad o dan adran 29(2) o'r Ddeddf,".

10. Ychwanegwch, ar ddechrau rheoliad 22(6)(a):

"ac eithrio yn achos apêl o dan adran 30(3) o'r Ddeddf neu gyfeiriad o dan adran 29(2) o'r Ddeddf,".

11. Yn lle rheoliad 22(6)(b), rhowch:

"(b) heb fod yn llai na dwy wythnos cyn y dyddiad a bennwyd ar gyfer cynnal yr ymchwiliad, anfon hysbysiad o'r ymchwiliad i unrhyw bersonau neu ddsbarthiadau o bersonau y mae'n barnu eu bod yn briodol ond rhaid iddo gynnwys, yn achos apêl o dan adran 30(3) o'r Ddeddf neu gyfeiriad o dan adran 29(2) o'r Ddeddf, unrhyw berson yr oedd hysbysiad wedi'i roi iddo o dan reoliad 6(1)(ch)."

12. Yn lle pennawd rheoliad 36 (ac ar gyfer y cofnod cyfatebol yn Nhrefn y Rheoliadau) rhowch:

#### **"Cyhoeddi penderfyniadau ar apelau"**

13. Rhowch yn lle rheoliad 36:

"**36.** Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol, onid yw'n rhesymol anymarferol gwneud hynny, gyhoeddi, ar wefan y mae'n ei chynnal, hysbysiad o bob penderfyniad sy'n cael ei wneud o dan y Rheoliadau hyn:

- (a) mewn perthynas ag apêl o dan adran 6 o'r Ddeddf a pharhau i wneud hynny nes bod y map terfynol y mae'r apêl yn ymwneud ag ef yn cael ei ddyroddi;
- (b) mewn perthynas ag apêl o dan adran 30(3) o'r Ddeddf neu gyfeiriad o dan adran 29(2) o'r Ddeddf a pharhau i wneud hynny am o leiaf chwe mis o ddyddiad y penderfyniad."

8. In regulation 12(1)(c), add, after "interested person":

"and, in the case of an appeal under section 30(3) of the Act or a reference under section 29(2) of the Act, any person to whom notice was given under regulation 6(1)(d),"

9. Add, at the beginning of regulation 12(1)(d):

"except in the case of an appeal under section 30(3) of the Act or a reference under section 29(2) of the Act,".

10. Add, at the beginning of regulation 22(6)(a):

"except in the case of an appeal under section 30(3) of the Act or a reference under section 29(2) of the Act,".

11. For regulation 22(6)(b), substitute:

"(b) not less than 2 weeks before the date fixed for the holding of the inquiry, to send a notice of the inquiry to such persons or classes of persons as it judges appropriate but which must include, in the case of an appeal under section 30(3) of the Act or a reference under section 29(2) of the Act, any person to whom notice was given under regulation 6(1)(d)."

12. Substitute for the heading of regulation 36 (and for the corresponding entry in the Arrangement of Regulations):

#### **"Publication of decisions on appeals"**

13. Substitute for regulation 36:

"**36.** The National Assembly must, unless it is not reasonably practicable to do so, publish, on a website which it maintains, notice of every decision made under these Regulations:

- (a) in relation to an appeal under section 6 of the Act and continue to do so until the conclusive map to which the appeal relates is issued;
- (b) in relation to an appeal under section 30(3) of the Act or a reference under section 29(2) of the Act and continue to do so for at least six months from the date of the decision."





---

OFFERYNNAU STATUDOL

---

**2003 Rhif 142 (Cy.14)**

**CEFN GWLAD, CYMRU**

Rheoliadau Mynediad i Gefn  
Gwlad (Gwahardd neu Gyfyngu  
Mynediad) Cymru 2003

---

STATUTORY INSTRUMENTS

---

**2003 No. 142 (W.14)**

**COUNTRYSIDE, WALES**

The Countryside Access (Exclusion  
or Restriction of Access) (Wales)  
Regulations 2003

©© Hawlfraint y Goron 2003

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

**£4.50**

W200/3/03

ON

© Crown copyright 2003

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090653-5



9 780110 906539